

# TRWYDDEDAU GYRRWR CERBYD HURIO PREIFAT / HACNI

## BETH MAE ANGEN I CHI EI WYBOD AM DDOD YN YRRWR CERBYD HURIO PREIFAT/HACNI YM MWRDEISTREF SIROL WRECSAM

I ddod yn yrrwr, bydd raid i chi gael trwydded gan y Cyngor. Cyhoeddir y drwydded dan ddeddf seneddol o'r enw Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a chyfeirir ati fel TRWYDDED GYRRWR. I gael trwydded gyrrwr, rhaid i'r Cyngor benderfynu a ydych yn "unigolyn addas a phriodol" dan delerau'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys cyfres o brofion a gwiriadau gyda chyrrff amrywiol er mwyn i'r Cyngor benderfynu ar eich cais mewn ffordd deg a chyson.

Gallwch gael ffurflenni cais gan y Depo Cludiant, Ffordd yr Abaty, Ystâd Ddiwydiannol Wreccsam, Wreccsam, LL13 9PW.

Mae'r weithdrefn ymgeisio fel a ganlyn:

I ymgeisio am Drwydded Gyrrwr Hurio Preifat / Hacni, mae'r canlynol yn hanfodol:

1. Byddwch yn 18 oed o leiaf ac wedi dal trwydded yrru Brydeinig neu Ewropeaidd (EC neu EEA) lawn ers o leiaf blwyddyn.
2. Llenwch y ffurflen gais briodol a ffurflen wirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). **Dylid cyflwyno'r ddwy ffurflen gyda'i gilydd.** Rhaid i ymgeiswyr nad ydynt yn ddinasyddion Prydeinig ddarparu tystiolaeth o wiriadau cofnodion troseddol o'u gwlad wreiddiol neu'r wlad lle roeddent yn byw ynddi cynt.
3. Archwiliad meddygol grŵp 2 gan eich meddyg a chi fydd yn talu am hyn. Dylech wneud hyn pan fyddwch wedi derbyn cadarnhad gan yr Adran fod eich cais wedi ei gymeradwyo. Bydd y Cyngor yn rhoi Ffurflen Meddygol Grŵp 2 i chi. **Noder - Ni fydd ymgeiswyr gydag epilepsi neu sydd wedi colli eu golwg o fewn un llygad yn medru ateb safon Meddygol Grŵp 2. Rhaid i berson diabetig sy'n cymryd inswlin ateb Amodau Cymhwyso presennol y DVLA.**

(15/10/2015)

4. Bwriad y "Prawf Gwybodaeth" yw cadarnhau eich bod yn adnabod yr ardal yn dda, yr amodau gwaith a amlinellwyd gan y Cyngor, rheoliadau traffig a'ch bod yn meddu ar y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Saesneg. Bydd y prawf yn para hanner awr a bydd yn cynnwys 30 cwestiwn. Rhaid i chi ateb 25 yn gywir er mwyn llwyddo. Fodd bynnag, i'ch cynorthwyo, byddwch yn cael peth gwybodaeth ymlaen llaw am y cwestiynau.

Os byddwch yn methu, gallwch ymgeisio unwaith eto ar ôl talu'r ffi. Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, mae Coleg Iâl, Wrecsam yn cynnal cyrsiau Saesneg a gall y rhain eich helpu i baratoi am ail brawf, eu rhif ffôn yw 01978 311794.

### **Trwyddedau Preswyllo a Thrwyddedau Gwaith -**

Ymgeiswyr o'r Tu Allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA)

Rhaid i ymgeiswyr sydd â dinasyddiaeth mewn gwledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ddarparu Trwydded Breswyllo Ddilys a Thrwydded Waith Ddilys wrth gyflwyno eu ceisiadau. Ni ellir ystyried ceisiadau heb Drwydded Breswyllo Ddilys a Thrwydded Waith Ddilys. **Sylwch na ellir rhoi trwyddedau y tu hwnt i ddyddiad dod i ben eich Trwydded Breswyllo / Trwydded Waith y DU.**

### BETH SY'N DIGWYDD YN DILYN Y GWIRIADAU A'R PROFION?

Tra bod y gwiriadau'n cael eu gwneud gan y Swyddfa Drwyddedu, bydd y Cyngor yn penderfynu ar eich cais ac yn gwneud unrhyw ymholiadau gofynnol. Os bydd angen mwy o wybodaeth er mwyn cwblhau eich cais, byddwch yn cael gwybod. Os bydd wedi ei gwblhau'n foddhaol, byddwch yn cael eich Trwydded Gyrrwr a'ch Bathodyn Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat, fel arfer ar ddiwrnod y "Prawf Gwybodaeth".

Wrth gyflwyno eich Ffurflen Gais gyda'r Ffurflen Gwiriad GDG, bydd angen i chi **gyflwyno'r Dogfennau Gwreiddiol canlynol** (nid yw Copïau'n dderbyniol) yn bersonol:

• **Trwydded yrru DVLA y DU** - (Llawr ers lleiafswm o 12 mis a chyfeiriad cyfredol arni).  
• **"Cerdyn Llun" gyda Thrwydded Yrru Gweld Ar-lein y DVLA "One Time Access Code" a Ffurflen Ganiatâd Hawl Gyrru D906 DVLA.**

- **Pasbort cyfredol**
- **Tystysgrif geni y DU neu Drwydded Breswyllo y DU**
- **Prawf o Rhif Yswiriant Gwladol e.e. P45/P60 ac ati**
- **Prawf o gyfeiriad presennol (bil cyfleustodau ac ati)**
- **Dau lun lliw maint pasport**
- **Y ffi briodol**

Byddwn bob amser yn ceisio delio gyda'ch cais mor gyflym ag sy'n bosibl ond oherwydd ein bod yn dibynnu ar sefydliadau eraill i ddarparu gwybodaeth i ni, gall y broses gymryd hirach nag a ddisgwylir weithiau. Ac eithrio amgylchiadau arbennig, ceisiwn benderfynu ar bob cais o fewn chwe wythnos o dderbyn y cais. Fodd bynnag, sylwer na fydd cais fel rheol yn cael ei dderbyn hyd nes i ni dderbyn yr holl waith papur perthnasol a'r ffi Datgeliad GDG.

**Rhaid i'ch Trwydded gael ei chyhoeddi o fewn Deufis i ddyddiad cymeradwyo eich cais. Unwaith byddwch wedi derbyn eich bathodyn, rydych wedi trwyddedu i yrru naill ai Car Hurio Preifat neu Gerbyd Hacni ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.** (Yn amodol ar ba brawf ydych wedi'i basio). Rhaid i'r cerbydau hyn fod wedi eu trwyddedu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam er nid oes raid i chi fod yn berchen ar y cerbyd. Ar y cyd â'ch bathodyn, byddwch yn derbyn trwydded bapur y bydd unrhyw weithredwr rydych yn gweithio gydag ef am ei gweld. Bydd eich bathodyn cyntaf yn para 3 Blynedd a gallwch ei adnewyddu ar ôl talu ffi. Byddwch yn cael eich atgoffa o hyn tua wyth wythnos cyn iddo ddod i ben. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio mai CHI sy'n gyfrifol am sicrhau yr adnewyddir eich datgeliad GDG, Ffurflen Caniatâd Hawl i Yrru D906 y DVLA a'ch Bathodyn mewn pryd.

Ymdrinnir ag unrhyw geisiadau a wneir ar ôl yr amser hwn fel ceisiadau newydd a bydd gofyn i chi fynd trwy'r un weithdrefn a nodir ar gyfer rhoi trwydded newydd.

Mae'r ffi'n ffi unigol sy'n cwmpasu eich holl gais a rhennir hyn yn rhannau ar wahân at ddibenion gweinyddol a chyfrifeg yn unig. Nid oes modd ad-dalu'r ffi i chi.

(08/11/2016)

### **HELP A CHYNGOR**

Rydym yn barod i roi cyngor am drwyddedu bob amser. Gallwch alw heibio:

Depo Ffordd yr Abaty (Gweinyddiaeth Trwyddedu), Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam 01978 729600

Neu'r Isadran Gorfodaeth Trwyddedu ar 01978 298990, Swyddfeydd Gwarchod y Cyhoedd, Stryd yr Arglwydd, Wrecsam.

Mae staff ar gael rhwng 8.30 am a 4.00 pm fel arfer (Ar gau 12.00 pm – 13.00 pm) Ddydd Llun i Ddydd Gwener.

### **Prawf Gwybodaeth Gyrwyr Cerbydau Hacni / Cerbydau Hurio Preifat**

Er mwyn sicrhau bod pob ymgeisydd am drwydded gyrrwr yn gyfarwydd â'r ardal y byddant yn gweithredu ynddi'n bennaf, a'r hyn y gall ac na all gyrrwyr ei wneud yn ôl y rheoliadau a'r amodau, mae'n rhaid i bob ymgeisydd sefyll a phasio prawf gwybodaeth llafar. Mae'r Prawf Gwybodaeth yn cynnwys cyfres o 100 o gwestiynau. Gofynnir 30 cwestiwn i chi ac mae'n rhaid i chi ateb 25 yn gywir. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys amodau'r drwydded y mae rhai o'r cwestiynau wedi eu seilio arnynt. Bydd gweddill y cwestiynau'n seiliedig ar leoliadau Ysbytai, Gwestai a Thafarndai, cwestiynau Theori Gyrru a'r llwybr byrraf rhwng dau bwynt. Bydd hefyd cwestiynau amlddewis ar ardal Wrecsam, amodau gyrrwyr a cherbydau. Mae'r holl wybodaeth sydd ei hangen i ateb y cwestiynau a ofynnir ar gael o fap stryd A-Z, y llyfr ffôn a'r Amodau ar gyfer Gyrwyr a Cherbydau Hurio Preifat / Cerbydau Hacni.

Os byddwch yn methu'r prawf, gallwch ei sefyll eto mor aml ag y dymunwch - ar ôl talu ffi am bob ymgais.

(08/11/2016)

## **MEINI PRAWF I'W DEFNYDDIO WRTH BENDERFYNU AR DRWYDDED GYRRWR CERBYD HACNI/HURIO PREIFAT**

Mae Deddf Ailsefydlu Troseddwyd 1974 yn darparu nad yw "euogfarnau sydd wedi dod i ben" yn cael eu hystyried yn gyffredinol gan fod unigolyn a ailsefydlwyd yn cael ei drin fel unigolyn â chymeriad da cyn yr euogfarn. Fodd bynnag, mae Gorchymyn Ailsefydlu Troseddwyd 1974 (Eithriadau) (Diwygiad) 2002 yn eithrio Gyrwyr Hurio Preifat a Hacni o'r Ddeddf ac ni ystyrir euogfarnau fel rhai sydd wedi dod i ben. Golyga hyn fod rhaid cofnodi pob euogfarn sydd gan ymgeisydd ar y ffurflen gais; bydd gan swyddogion ac Aelodau (os yw'r cais i fynd o flaen y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol) hawl i ofyn cwestiynau am euogfarnau sydd wedi dod i ben.

Mae'r Awdurdod yn gofyn i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gynnal Gwiriad Datgeliad Manwl o geisiadau am Drwyddedau Gyrwyr. Mae hyn yn rhoi manylion i'r Awdurdod am unrhyw euogfarnau byw neu ddarfodedig, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae Prif Swyddog yr Heddlu'n credu ei bod yn berthnasol i'r swydd. Gallai'r wybodaeth hon fod yn gŵyn neu'n ddigwyddiad sy'n cynnwys yr ymgeisydd dan sylw; nid oes raid iddi fod yn erlyniad neu rybudd.

Mae'r Pwyllgor Trwyddedu a/neu Swyddogion yn penderfynu ar geisiadau yn unol â'r Polisi Meini Prawf Addasrwydd Gyrwyr a Gweithredwyr (gweler isod). Bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau ei hun. Nid oes rhaid i unigolyn ag euogfarn cyfredol am drosedd ddifrifol gael ei wahardd yn barhaol rhag cael trwydded ond dylai cyfnod o 3 i 5 mlynedd fynd heibio heb dderbyn euogfarn, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, cyn i gais gael ei ystyried. Efallai y bydd rhywfaint o ddisgresiwn yn briodol os yw'r drosedd yn drosedd untro a bod yna amgylchiadau lliniarol. Fodd bynnag, yr ystyriaeth bwysicaf yw diogelu'r cyhoedd.

Bydd yr holl wybodaeth a rowch yn cael ei thrin yn hollol gyfrinachol a bydd yn cael ei hystyried dim ond mewn perthynas â'ch cais. Dylech wybod bod gan y Cyngor y pŵer gyfreithiol i wirio a'r Heddlu (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) am fodolaeth a chynnwys unrhyw gofnod troseddol yn enw'r ymgeisydd. Cedwir gwybodaeth a dderbynnir gan yr Heddlu neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfrinachol tra bod y broses drwyddedu'n mynd yn ei blaen ac ni fydd yn cael ei chadw'n hwy na'r angen. Mae datganiad polisi ar storio, trin, defnyddio, cadw a chael gwared ar wybodaeth ar gael ar gais.

Ni fydd datgelu cofnod troseddol neu wybodaeth arall yn eich atal rhag cael trwydded bob amser oni bai bod y Cyngor yn teimlo bod yr euogfarn yn eich gwneud yn anaddas. Wrth benderfynu ar hyn, bydd yr Awdurdod yn ystyried natur y drosedd, pryd ddigwyddodd a beth oedd eich oedran pan ddigwyddodd ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill. Fe'ch cynghorir i ystyried y canllawiau canlynol mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau.

Mae gan unrhyw ymgeisydd sy'n methu â chael trwydded ar y sail nad yw'n "unigolyn priodol ac addas" yr hawl i apelio yn y Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod ar ôl cael y penderfyniad.

## **POLISI MEINI PRAWF AR GYFER ADDASRWYDD GYRWYR A GWEITHREDWYR**

Mae'r Pwyllgor Trwyddedu a/neu Swyddogion yn cyfeirio at y polisi hwn wrth benderfynu ar geisiadau am drwyddedau. Gweler Atodiad 1 i weld copi o'r Polisi.

Nod y polisi hwn yw gwarchod diogelwch y cyhoedd. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn awyddus i sicrhau:

- Bod unigolyn yn berson addas a phriodol;
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd;
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest;
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu;
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu;
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

### **Cyfreithiau ac Amodau sy'n Berthnasol i Yrwyr**

Rhaid i holl yrwyr Cerbydau Hacni neu Hurio Preifat gael eu trwyddedu gan y Cyngor a dylent fod wedi dal trwydded yrru lawn ers mwy na 12 mis cyn ymgeisio. Gweler Atodiad 2 ar gyfer Amodau'r Drwydded.

#### **a) Gyrwyr Cerbydau Hacni**

Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847  
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976  
Is-ddeddfau

#### **b) Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat**

Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976  
Amodau'r Drwydded

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar y nifer o drwyddedau a gyhoeddir;  
Cyhoeddir trwydded os yw'r ymgeisydd yn bodloni holl ofynion y Cyngor.

### **Bathodynau Gyrwyr**

Pan gyhoeddir trwydded, rhoddir Bathodyn i'r gyrrwr a bydd disgwyl iddo wisgo hwn bob amser tra mae'n gyrru Cerbyd Hurio Preifat / Cerdyn Hacni mewn man lle mae'n hawdd ei weld wrth i'r cerbyd gael ei yrru. Bydd gyrrwr nad ydynt yn gwisgo bathodyn yn euog o drosedd. Cyhoeddir trwydded bapur hefyd sy'n rhoi manylion am yr amodau y disgwylir i holl ddeiliaid trwydded gadw atynt.

### **Diddymu a Gwahardd**

Mae gan y Cyngor y pŵer i ddiddymu, gwahardd neu wrthod adnewyddu trwydded os euogfarnwyd y gyrrwr o drosedd dan Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 neu Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ers rhoi'r drwydded neu am unrhyw achos rhesymol arall.

### **Cymell Hurio**

Cynghorir ymgeiswyr am Drwydded Gyrrwr Hurio Preifat ei fod yn drosedd i gymell hurio mewn Cerbyd Hurio Preifat. Rhaid neilltuo'r cerbyd ymlaen llaw.

### **Mesuryddion Tacsï**

Cynghorir ymgeiswyr ei fod yn drosedd i darfu ar unrhyw sêl ar fesurydd neu newid y mesurydd gyda'r bwriad o gamarwain pobl.

### **RHWYSTRO SWYDDOGION AWDURDODEDIG A HEDDWEISION**

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, mae'n drosedd i unrhyw un rwystro Swyddog awdurdodedig neu Heddwasi sy'n gweithredu dan y Ddeddf a methu â chydymffurfio ag unrhyw ofynion sydd ganddynt neu fethu â rhoi cymorth neu wybodaeth resymol i Swyddog awdurdodedig neu Heddwasi.



## **Polisi Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hacni**

## **Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr**

**DYDDIAD: Awst 2019**

## Cynnwys

- 1.0 Cyflwyniad
- 2.0 Polisi Cyffredinol
- 3.0 Apeliadau
- 4.0 Pwerau
- 5.0 Opsiynau wrth wneud penderfyniad ar gais/trwydded
- 6.0 Ystyried hanes troseddol a ddatgelwyd
- 7.0 Trais
- 8.0 Troseddau Rhyw ac Anweddustra
- 9.0 Anonestrwydd
- 10.0 Gyrru o dan Ddylanwad Alcohol a Chyffuriau
- 11.0 Troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau
- 12.0 Meddwdod (nid mewn cerbyd modur)
- 13.0 Troseddau Gyrru sy'n cynnwys colli bywyd
- 14.0 Euogfarnau Moduro
  - 14.2 Troseddau Traffig Mawr
  - 14.7 Mân Droseddau Traffig
    - 14.11 Troseddau Yswiriant
- 15.0 Gwaharddiad
- 16.0 Gwybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarnau
- 17.0 Aildroseddu
- 18.0 Torri Deddfwriaeth, Is-ddeddf neu Amod Trwydded
- 19.0 Ymgeiswyr â chyfnodau'n byw y tu allan i'r DU.
- 20.0 Trwyddedau a gyhoeddir gan Awdurdodau eraill
  
- 21.0 Crynodeb

Atodiad A – Troseddau moduro a phwyntiau cosb

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Diben y polisi hwn yw darparu arweiniad ar y meini prawf sy'n cael eu hystyried gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrth benderfynu a yw ymgeisydd neu ddeiliad trwydded presennol yn unigolyn addas a phriodol i gael trwydded cerbyd hacni a/neu drwydded gyrrwr / gweithredwr cerbyd hurio preifat ai peidio.

1.2 Nod y polisi hwn yw diogelu diogelwch y cyhoedd. Mae'r Awdurdod Trwyddedu eisiau sicrhau:

- Bod yr unigolyn hwnnw yn unigolyn addas a phriodol;
- Nad yw'r unigolyn hwnnw yn cyflwyno bygythiad i'r cyhoedd;
- Bod y cyhoedd yn cael eu diogelu rhag unigolion anonest;
- Diogelu plant a phobl ifanc;
- Diogelu pobl agored i niwed;
- Bod gan y cyhoedd hyder wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

1.3 Nid yw'r term "Unigolyn Addas a Phriodol" at ddibenion trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat wedi'i ddiffinio'n gyfreithlon. Fodd bynnag, wrth benderfynu a yw unigolyn yn addas a phriodol i gynnal trwydded, mae'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar drwyddedau/ceisiadau yn gofyn iddynt eu hunain i bob pwrpas:

"Fyddech chi'n caniatáu i'ch mab neu ferch, priod neu bartner, mam neu dad, ŵyr neu wyres neu unrhyw unigolyn arall sy'n annwyl i chi, fynd i mewn i gerbyd gyda'r unigolyn hwn ar eu pen eu hunain?"

Os mai "byddwn" yn ddiamod yw'r ateb i'r cwestiwn hwn yna gellir ystyried bod yr unigolyn yn addas a phriodol. Os oes unrhyw amheuon ym meddyliau'r rhai sy'n gwneud y penderfyniad, yna dylid rhoi ystyriaeth bellach o ran a ddylid rhoi trwydded i'r unigolyn hwnnw ai peidio.

Er mwyn asesu addasrwydd ymgeisydd (ac er mwyn hysbysu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth ateb y cwestiwn uchod), bydd y Cyngor yn cynnal y gwiriadau perthnasol ac angenrheidiol y mae'n credu sy'n briodol er mwyn sicrhau nad yw trwyddedau'n cael eu cyhoeddi i, nac yn cael eu defnyddio gan, bobl anaddas. Wrth asesu addasrwydd ymgeisydd neu ddeiliad trwydded, bydd y cyngor yn ystyried y ffactorau canlynol:

- Troseddoldeb
- Cyfnod cael trwydded yrru
- Nifer y pwyntiau cosb arnodedig ar drwydded yrru
- Cymhwyster i weithio yn y DU
- Addasrwydd meddygol
- Safon gyrru/gallu gyrru
- Ymddygiad yr ymgeisydd wrth wneud y cais (e.e. a ydynt wedi ymddwyn gydag integredd yn ystod y broses o wneud cais).
- Hanes trwyddedau blaenorol deiliaid trwyddedau presennol/blaenorol.

Hefyd, bydd y Cyngor yn ystyried ffynonellau gwybodaeth pellach gan gynnwys yr Heddlu (gan gynnwys hysbysiadau cipio), Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion, awdurdodau trwyddedu ac asiantaethau statudol eraill.

1.4 Nod y polisi hwn yw darparu canllaw i unrhyw unigolyn sydd â diddordeb mewn trwyddedu cerbydau hurio cyhoeddus a phreifat. Yn benodol, ond nid yn unig, y canlynol:

- Ymgeiswyr trwyddedau gyrrwr / gweithredwyr



- Gyrwyr /gweithredwyr trwyddedig presennol y mae eu trwyddedau'n cael eu hadolygu
- Swyddogion Trwyddedu a'r Heddlu
- Aelodau'r Pwyllgor/Panel Trwyddedu Amgylcheddol (neu gorff perthnasol arall sy'n gwneud penderfyniadau)
- Ynadon a Barnwyr sy'n gwranddo ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau awdurdod lleol

1.5 Pan fydd gan swyddogion trwyddedu bwerau dirprwyedig o ran trwyddedau cerbydau hurio preifat/hacni, byddant yn defnyddio'r canllawiau hyn wrth wneud penderfyniad i gymeradwyo trwydded. Ym mhob achos arall, cyfeirir pob cais am drwyddedau i'r Pwyllgor/Panel Trwyddedu Amgylcheddol (neu gorff arall perthnasol sy'n gwneud penderfyniadau). Er y bydd swyddogion a'r pwyllgor/panel yn rhoi ystyriaeth i'r canllawiau yn y polisi, **bydd pob polisi yn cael ei ystyried ar ei rinweddau unigol ei hun** a, phan fydd amgylchiadau'n mynnu, gall y pwyllgor/swyddog wyro oddi wrth y canllawiau.

1.6 Pan fydd ymgeiswyr yn methu â datgelu unrhyw euogfarnau blaenorol; rhybuddion; hysbysiadau cosb, gorchmynion neu geryddon ar eu ffurflen gais, gan gynnwys unrhyw achosion llys i'w cynnal neu unrhyw faterion eraill gellir eu cyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu wneud penderfyniad arnynt.

## 2.0 Polisi cyffredinol

2.1 Wrth ystyried y canllaw hwn, bydd y Cyngor yn ymwybodol bod angen ystyried pob achos ar ei rinweddau unigol ei hun a, phan fydd amgylchiadau'n mynnu, gall y pwyllgor wyro oddi wrth y canllawiau hyn,

2.2 Nid oes angen gwahardd unigolyn ag euogfarn am drosedd ddifrifol yn awtomatig o reidrwydd rhag cael trwydded, ond fel arfer disgwylir i'r ymgeisydd:

- a. Parhau'n rhydd o euogfarn am gyfnod priodol (fel y nodir isod);
- b. Dangos tystiolaeth ddigonol eu bod yn unigolyn addas a phriodol i gynnal trwydded (cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw darparu tystiolaeth o'r fath).

Efallai na fydd dim ond parhau'n rhydd o euogfarn yn cael ei ystyried yn dystiolaeth ddigonol ar y cyfan bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol i gynnal trwydded.

2.3 At ddibenion y Polisi hwn, gallai "materion eraill i'w hystyried" gynnwys, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol:

- a) Euogfarnau troseddol / moduro;
- b) Llys Milwrol;
- c) Rhybuddion;
- d) Hysbysiadau cosb benodedig neu hysbysiadau cosb eraill;
- e) Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol neu orchmynion tebyg eraill;
- f) Torri amodau trwydded;
- g) Rhybuddion neu Geryddon Ffurfiol;
- h) Cyhuddiadau neu faterion sy'n aros am dreial;
- i) Priodoldeb.

2.4 Pan fydd gan ymgeisydd euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried am drosedd droseddol, ni all y cyngor adolygu rhinweddau'r euogfarn neu fater arall.

2.5 Pan fydd gan ymgeisydd / deiliad trwydded euogfarn neu fater arall i'w ystyried ar gyfer trosedd o gynorthwyo, annog, ceisio, cynllwynio, cynghori, caffael, achosi, caniatáu neu ysgogi unrhyw un o'r euogfarnau / materion troseddol neu fodurol sy'n cael eu nodi yn y canllaw hwn, ystyrir eu bod yn berthnasol ar gyfer y mater sylweddol.

- 2.6 Y safonau a'r meini prawf a nodir yn y paragraffau isod yw'r rhai a fyddai fel arfer yn berthnasol i geisiadau a thrwyddedau. Gall y Cyngor wyro oddi wrth y meini prawf hyn; fodd bynnag, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai wneud hynny.

### **3.0 Apeliadau**

- 3.1 Mae gan unrhyw ymgeisydd y gwrthodwyd trwydded gyrrwr / gweithredwr iddynt, neu yrrwr / gweithredwr trwyddedig y mae eu trwydded wedi'i hatal neu ei dirymu hawl i apelio i'r Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad.

### **4.0 Pwerau**

- 4.1 Mae'r pwerau i roi trwyddedau gyrrwr / gweithredwr wedi'u cynnwys yn Adran 51, Adran 55 ac Adran 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (y Ddeddf).
- 4.2 Mae'r pwerau i atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded gyrru wedi'u cynnwys yn Adran 61 y Ddeddf, pan fydd yr ymgeisydd/deiliad y drwydded yn euog o drosedd a oedd yn cynnwys anonestrwydd, anweddustra, trais; methiant i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847; methiant i gydymffurfio â darpariaethau Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976; neu unrhyw achos rhesymol arall.
- 4.3 Mae Adran 61 (2B) yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu, os yw'n ymddangos er budd diogelwch y cyhoedd, i atal neu ddirymu trwydded gyrrwr ar unwaith. Cyhoeddir Hysbysiad Penderfyniad sy'n esbonio pam y gwnaed y penderfyniad hwn i'r gyrrwr a bydd yn weithredol pan roddir yr hysbysiad i'r gyrrwr. Gall y gyrrwr apelio'r penderfyniad hwn ond ni all yrru yn ystod cyfnod yr apêl.
- 4.4 Mae Adran 62 y Ddeddf yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded gweithredwr os bydd yr ymgeisydd/deiliad y drwydded yn euog o drosedd o dan, neu ddiffyg cydymffurfiaeth â, Rhan II y Ddeddf; ar sail unrhyw ymddygiad ar ran y gweithredwr sydd, ym marn y Cyngor, yn eu gwneud yn anaddas, neu yn sgîl unrhyw newid perthnasol ers rhoi'r drwydded i unrhyw un o amgylchiadau'r gweithredwr ar sail y rhoddwyd y drwydded neu unrhyw achos rhesymol arall.
- 4.5 Mae Gorchymyn Adsefydlu Troseddwr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002, yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried pob euogfarn a gofnodwyd yn erbyn ymgeisydd neu ddeiliad trwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni, p'un a ydynt wedi'u disbyddu ai peidio. Felly, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried pob euogfarn berthnasol, yn arbennig pan fydd hanes hir o droseddu neu batrwm diweddar o aildroseddu.

### **4.6 Rhybuddion Gwarchodedig ac Euogfarnau Gwarchodedig**

- 4.7 Mae Gorchymyn Eithriadau Deddf Adsefydlu Troseddwr (1974) 2013 bellach yn dileu "euogfarnau gwarchodedig" a "rhybuddion gwarchodedig" o'r eithriadau.
- 4.8 Mae "Troseddau Rhestredig" bob amser yn cael eu datgelu ac maent yn cynnwys troseddau mwy difrifol, troseddau rhywiol a'r rhai â goblygiadau diogelu ac yn y blaen. Mae troseddau rhestredig wedi'u nodi yn adran 5 Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwr 1974 (Eithriadau) 1975 (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2013.
- 4.9 Mae euogfarn yn "euogfarn warchodedig" os:
- Nad yw'n berthnasol i drosedd restredig.
  - Ni roddwyd dedfryd o garchar.

- Nid oes gan yr unigolyn unrhyw euogfarnau eraill. (Pan fydd gan yr unigolyn fwy nac un euogfarn, bydd pob euogfarn wedi'u cynnwys ar y dystysgrif.)
- Cafodd ei derbyn gan unigolyn o dan 18 oed ar adeg yr euogfarn a bod **pum mlynedd a hanner neu fwy** wedi mynd heibio.
- Cafodd ei derbyn gan unigolyn 18 oed neu'n hŷn ar adeg yr euogfarn ac mae **11 mlynedd neu fwy** wedi mynd heibio.

4.10 Mae rhybudd yn "rybudd gwarchoddedig" os:

- Nad yw'n berthnasol i drosedd restredig.
- Fe'i rhoddwyd i unigolyn o dan 18 oed ar adeg y rhybudd ac mae **dwy flynedd neu fwy** wedi mynd heibio.
- Fe'i rhoddwyd i unigolyn 18 oed neu'n hŷn ar adeg y rhybudd ac mae **chwe blynedd neu fwy** wedi mynd heibio.

## 5.0 Opsionau wrth wneud penderfyniad ar gais/trwydded

5.1 Wrth benderfynu ar gais neu adolygu trwydded bresennol, mae gan y Cyngor yr opsiynau canlynol:

- Cymeradwyo'r cais neu beidio cymryd unrhyw gamau pellach
- Gwrthod y cais/dirymu'r drwydded/atal y drwydded
- Cyflwyno rhybudd

## 6.0 Ystyried hanes troseddol a ddatgelwyd

6.1 O dan ddarpariaethau Adrannau 51, 55 a 59 y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu sicrhau bod ymgeisydd sydd eisiau adnewyddu trwydded gyrrwr / gweithredwr yn unigolyn 'addas a phriodol' i gael trwydded o'r fath. Fodd bynnag, os oes gan ymgeisydd / deiliad trwydded unrhyw faterion i'w hystyried, gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried:

- Pa mor berthnasol yw'r drosedd/troseddau i'r drwydded y gwneir cais amdani;
- Pa mor ddifrifol oedd y drosedd/troseddau;
- Pryd y cyflawnwyd y drosedd/troseddau;
- Dyddiad yr euogfarn ac oedran yr ymgeisydd ar adeg yr euogfarn;
- Y ddedfryd a roddwyd gan y llys;
- A ydynt yn ffurfio rhan o batrwm o droseddu;
- Unrhyw ffactorau eraill a allai fod yn berthnasol, er enghraifft:
  - Ymddygiad blaenorol deiliad trwydded presennol neu flaenorol;
  - A yw'r ymgeisydd wedi camarwain y cyngor yn fwriadol neu wedi dweud celwydd fel rhan o'r broses gwneud cais;
  - Gwybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill/adrannau eraill y cyngor.

6.2 Pan fydd ymgeiswyr yn methu â datgelu unrhyw euogfarnau; rhybuddion; hysbysiad cosb, gorchmynion neu geryddon blaenorol ar eu ffurflen gais, gan gynnwys unrhyw achosion llys i'w cynnal neu faterion eraill y gellir eu cyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol i wneud penderfyniad arnynt.

6.3 Mae'n rhaid i ddeiliaid presennol trwyddedau gyrru hysbysu'r cyngor yn ysgrifenedig o fewn saith diwrnod gwaith o dderbyn cymeradwyaeth trwydded yrru, hysbysiad cosb benodedig, rhybudd, cerydd, rhybudd yr heddlu, euogfarn droseddol neu achos troseddol arall (gan gynnwys eu rhyddfarn fel rhan o achos troseddol). Byddai methiant i wneud hynny yn codi cwestiynau difrifol i'r Cyngor o ran onestrwydd deiliad y drwydded a bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o unrhyw gais adnewyddu.

- 6.4 Mae'r Cyngor yn cynnal datgeliadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) o unrhyw ymgeisydd sy'n gwneud cais am drwydded yrru. Bydd angen i ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gael neu adnewyddu trwydded yrru drefnu datgeliad manylach, a thalu am hynny eu hunain.
- 6.5 Mae gan y Cyngor hawl hefyd i ddefnyddio cofnodion a gwybodaeth arall a allai fod ar gael iddynt wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau neu hawl i barhau i gynnal trwydded. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth sydd gan y Cyngor neu awdurdodau trwyddedu eraill, a gwybodaeth sy'n cael ei datgelu gan yr heddlu o dan Gynllun Datgeliadau Cyfraith Gyffredin yr Heddlu neu drefniadau tebyg eraill. Ymhlith yr enghreifftiau o ffynonellau gwybodaeth o'r fath y gellir eu defnyddio mae gwybodaeth gofal cymdeithasol, taliadau budd-dal ac yn y blaen.
- 6.6 Mae'n drosedd i unrhyw berson, boed hynny'n fwiadol neu'n ddifeddwl, wneud datganiad ffug neu hepgor unrhyw ddeunydd, yn arbennig wrth roi gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer gwneud cais am drwydded (a57 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol 1976). Pan fydd ymgeisydd wedi gwneud datganiad ffug neu ddatganiad ffug ar eu cais i gael neu adnewyddu trwydded, bydd y drwydded fel arfer yn cael ei gwrthod.

## 7.0 Trais

- 7.1 Mae gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r rheolaidd gyda'r cyhoedd. Cymerir safbwynt cadarn i'r rhai sydd ag euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried sy'n cynnwys trais. Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei dirymu os oes gan yr ymgeisydd/deiliad y drwydded euogfarn am drosedd a oedd yn cynnwys colli bywyd.
- 7.2 Mewn achosion eraill, bydd unrhyw un sydd sy'n euog o drosedd sy'n gysylltiedig â thrais, yn annhebygol o gael eu trwyddedu nes y bydd **o leiaf 3 blynedd** wedi mynd heibio ers euogfarn(au) o'r fath. Fodd bynnag, o ystyried yr amrediad o droseddau sy'n cynnwys trais, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i natur y drosedd.
- 7.3 Oni fydd amgylchiadau eithriadol, gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei dirymu pan fydd gan ymgeisydd / deiliad trwydded euogfarn am drosedd megis:
- Llofruddiaeth;
  - Dynladdiad;
  - Dynladdiad neu ddynladdiad beius wrth yrru;
  - Troseddau terfysgaeth;
  - Neu droseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.
- 7.4 Gwrthodir cais fel arfer pan fydd gan yr ymgeisydd euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried ar gyfer trosedd a restrir isod a bod yr euogfarn(au) neu fater(ion) i'w hystyried yn **llai na 10 mlynedd** cyn dyddiad y cais neu o leiaf 10 mlynedd o ddyddiad cwblhau dedfryd (pa un bynnag sydd hwyaf):

:

- Gwir niwed corfforol sydd wedi'i waethygu oherwydd hil / crefydd;
- Llosgi bwriadol;
- Ymosod ar yr Heddlu;
- Ymosodiad cyffredin sydd wedi'i waethygu oherwydd hil / crefydd;
- Difrod troseddol sydd wedi'i waethygu oherwydd hil / crefydd;
- Niwed corfforol difrifol gyda bwriad;
- Clwyfo maleisus neu niwed corfforol difrifol sydd wedi'i waethygu oherwydd hil;
- Meddu ar ddryll;

- Gwrthsefyll arestio;
- Terfysg;
- Lladrad;
- Anhrefn treisgar;
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.

7.5 Gwrthodir cais fel arfer pan fydd gan yr ymgeisydd euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried ar gyfer trosedd a restrir isod a bod yr euogfarn(au) neu fater(ion) i'w hystyried yn **llai na 3 mlynedd** cyn dyddiad y cais neu o leiaf 10 mlynedd o ddyddiad cwblhau dedfryd (pa un bynnag sydd hwyaf):

- Affrae;
- Ymosodiad sy'n achosi gwir niwed difrifol;
- Ymosodiad cyffredin;
- Difrod troseddol;
- Rhwystro;
- Meddu ar arf (neu arf ffug) neu unrhyw drosedd arall sy'n gysylltiedig â throsedd ar wahân i ddryll;
- Trosedd A5 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (aflonyddwch, braw neu drallod);
- Trosedd A.4 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (ofn cythrudd o drais);
- Trosedd A4A Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (aflonyddwch, braw neu drallod bwriadol);
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.

7.6 Gwrthodir cais fel arfer os bydd gan ymgeisydd fwy nac un euogfarn neu fater arall i'w hystyried yn y **10 mlynedd** ddiwethaf am drais o natur dreisgar.

## 8.0 Troseddau rhyw ac anweddustra

8.1 Oherwydd bod gyrwyr trwyddedig yn cludo teithwyr digwmni ac agored i niwed, cymerir safbwynt cadarn o ran y rhai sydd ag euogfarnau neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer troseddau rhyw. Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu am euogfarnau neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer unrhyw drosedd sy'n cynnwys camymddwyn rhywiol. Ym mhob achos, cânt eu cyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu er mwyn gwneud penderfyniad arnynt.

8.2 Oni fydd amgylchiadau eithriadol, gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried ar gyfer trosedd megis:

- Ymosodiad drwy dreiddiad;
- Ecsbloetio puteindra;
- Ymosodiad anweddustra;
- Troseddau sy'n cynnwys plant neu oedolion agored i niwed;
- Meddu ar ffotograffau anweddustra, pornograffi plant ac yn y blaen;
- Trais rhywiol;
- Ymosodiad rhywiol;
- Masnachu er mwyn ecsbloetio rhywiol neu fath arall o ecsbloetio;
- Gwneud galwadau ffôn anweddustra;
- Magu Perthynas Amhriodol neu geisio dod yn gyfaill i blentyn ar y rhynggrwyd neu drwy dduiliau eraill, gyda'r bwriad o'u cam-drin;
- Dinoethiad anweddustra;
- Cymell puteindra (plagio pen ffordd);
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.

- 8.3 Yn ogystal â'r uchod, ni fydd yr Awdurdod Trwydded fel arfer yn caniatáu trwydded i unrhyw ymgeisydd sydd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw neu unrhyw gofrestr debyg.
- 8.4 Gwrthodir cais fel arfer os bydd gan ymgeisydd fwy nac un euogfarn neu fater arall i'w ystyried ar gyfer trosedd rhyw.
- 8.5 Efallai y bydd y Cyngor yn dymuno ystyried amgylchiadau, pe byddent wedi digwydd ar adeg ystyried y cais, na fyddent yn drosedd.

## 9.0 Anonestrwydd

- 9.1 Disgwylir i ymgeisydd neu ddeiliad trwydded presennol fod yn unigolyn dibynadwy. Yn ystod eu dyletswyddau gwaith, bydd gyrwyr yn delio â thrafodion ariannol ac eiddo gwerthfawr y gellir bod wedi'u gadael yn eu cerbydau. Mae'n bosibl y bydd gyrwyr yn delio â chwsmeriaid sy'n agored i niwed neu sy'n feddw ac a allai ddrysu'n rhwydd. Ar ben hynny, mae'n gymharol hawdd i yrrwr anonest dwyllo'r cyhoedd drwy fynnu mwy na chost gyfreithiol y daith neu'r gost y cytunwyd arni, ac yn y blaen. Gall ymwelwyr o dramor fod yn ddryslud ynglŷn â'n harian cyfred a gallent fod yn agored i gael eu twyllo gan yrrwr diegwyddor. Am yr holl resymau hyn, cymerir safbwynt cadarn o unrhyw euogfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd.
- 9.2 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried ar gyfer y troseddau a restrir isod a bod yr euogfarn neu'r mater arall i'w ystyried **llai na 3 blynedd** cyn dyddiad y cais neu o leiaf 3 blynedd ar ôl cwblhau dedfryd (pa un bynnag sydd hwyaf):
- Twyll budd-daliadau;
  - Bwrgleriaeth;
  - Cynllwynio i dwyllo;
  - Ffugio;
  - Twyll;
  - Trin neu dderbyn nwyddau wedi'u dwyn;
  - Caffael arian neu eiddo drwy dwyll;
  - Math arall o dwyll;
  - Cymryd cerbyd heb ganiatâd;
  - Lladrad;
  - Codi gormod am y daith;
  - Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.
- 9.3 Cyfeirir ymgeiswyr neu ddeiliaid trwydded presennol, y canfyddir eu bod wedi camarwain y cyngor yn fwriadol, neu sydd wedi dweud celwydd fel rhan o'r broses gwneud cais/adnewyddu at y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol.

## 10.0 Gyrru o dan Ddylanwad Alcohol neu Gyffuriau

- 10.1 Mae yfed alcohol neu gymryd cyffuriau a gyrru yn cyflwyno risg amlwg i ddiogelwch y cyhoedd. Mae gyrwyr trwyddedig yn yrrwr galwedigaethol proffesiynol a chymerir safbwynt difrifol o euogfarnau am yrru, neu bod yn gyfrifol am gerbyd o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.
- 10.2 Dylai o leiaf 5 mlynedd, ar ôl adfer y drwydded yrru yn dilyn euogfarn gyrru alcohol/cyffuriau, fod wedi bod cyn yr ystyrir cais. Gellir trin euogfarn am "wrthod neu fethu â darparu sbesimen ar ôl derbyn cais i wneud hynny" yn yr un modd.
- 10.3 Mae mwy nac un euogfarn neu fater arall i'w ystyried ar gyfer **gyrru** o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau neu fethu â darparu sbesimen yn codi amheuan arwyddocaol

ynghlŷn ag addasrwydd yr ymgeisydd i yrru'r cyhoedd. Mae'n annhebygol y caniateir iddynt gael trwydded.

- 10.4 Os oes tystiolaeth o gamddefnyddio alcohol/cyffuriau cyson, efallai y bydd angen archwiliad meddygol arbenigol (yn unol â safonau meddygol Grŵp 2 DVLA) ac adroddiad meddygol boddhaol cyn y bydd y cais yn cael ei ystyried. Os bydd ymgeisydd wedi derbyn triniaeth am fod yn gaeth i alcohol/cyffuriau byddai angen iddynt ddangos tystiolaeth nad ydynt wedi cymryd alcohol/cyffuriau am 5 mlynedd yn dilyn triniaeth ddadwenwyno.

### **11.0 Troseddau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau**

- 11.1 Oherwydd natur cyswllt gyrrwr gyda'r cyhoedd, gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd/deiliad y drwydded euogfarn(au) neu fater(ion) i'w hystyried ar gyfer trosedd sy'n gysylltiedig â **chyflenwi, tyfu, mewnforio neu gynhyrchu cyffuriau** ac nad ydynt wedi bod yn rhydd o euogfarn am 10 mlynedd, neu o leiaf 10 mlynedd ar ôl cwblhau dedfryd (pa un bynnag sydd hwyaf).
- 11.2 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd/deiliad y drwydded euogfarn unigol neu fater arall unigol i'w ystyried ar gyfer trosedd sy'n gysylltiedig â **meddu ar gyffuriau** sy'n llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais, neu o leiaf 3 blynedd ar ôl cwblhau dedfryd (pa un bynnag sydd hwyaf).
- 11.3 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd **fwy** nac un euogfarn neu fater arall i'w ystyried ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig â **meddu** ar gyffuriau ac nad yw wedi bod yn rhydd o euogfarn neu fater arall i'w ystyried am o leiaf 5 mlynedd neu o leiaf 5 mlynedd ar ôl cwblhau dedfryd (pa un bynnag sydd hwyaf).
- 11.4 Os oes tystiolaeth o ddefnydd, camddefnydd neu ddibyniaeth barhaus gallai fod angen archwiliad meddygol arbenigol (yn unol â safonau meddygol Grŵp 2 DVLA). Os oedd yr ymgeisydd yn gaeth i gyffuriau, yna fel arfer bydd angen tystiolaeth i ddangos nad ydynt wedi bod yn ddibynnol ar alcohol/cyffuriau am **5 mlynedd**.

### **12.0 Meddwdod (Nid mewn Cerbyd Modur)**

- 12.1 Mae euogfarn unigol am feddwdod yn annhebygol o arwain at wrthod cais neu drwydded yn cael ei hatal neu ei dirymu, ar yr amod nad yw'n gysylltiedig â math arall o ymddygiad troseddol.
- 12.2 Gallai mwy nac un euogfarn am feddwdod awgrymu problem feddygol. Os oes tystiolaeth o ddefnydd, camddefnydd neu ddibyniaeth barhaus ar alcohol, gallai fod angen archwiliad meddygol arbenigol (yn unol â safonau meddygol Grŵp 2 DVLA). Os oedd yr ymgeisydd yn gaeth i alcohol yna fel arfer bydd angen tystiolaeth i ddangos nad ydynt wedi bod yn ddibynnol ar alcohol am **5 mlynedd**. Gellir dirymu trwydded deiliad trwydded presennol yn amodol ar ganlyniad yr archwiliad meddygol. Bydd archwiliad meddygol sy'n cadarnhau dibyniaeth ar alcohol yn golygu na all deiliad y drwydded wneud cais am drwydded hyd nes y gallant ddarparu tystiolaeth nad ydynt wedi bod yn ddibynnol ar alcohol am o leiaf 5 mlynedd.

### **13.0 Troseddau gyrru sy'n cynnwys colli bywyd**

- 13.1 Cymerir safbwynt difrifol iawn o unrhyw ymgeisydd neu ddeiliad trwydded presennol sydd ag euogfarn neu unrhyw fater arall i'w ystyried am drosedd yrru sydd wedi arwain at golli bywyd.

13.2 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried ar gyfer unrhyw droseddau a restrir isod ac nad ydynt wedi bod yn rhydd o euogfarn am 10 mlynedd (neu dylai bod o leiaf 5 mlynedd fod wedi mynd heibio ers cwblhau'r dedfryd, pa un bynnag sydd hwyaf):

- Achosi marwolaeth drwy yrru peryglus;
- Achosi marwolaeth drwy yrru diofal o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau;
- Neu unrhyw droseddau tebyg.

13.3 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried am unrhyw un o'r troseddau a restrir isod ac nad ydynt wedi bod yn rhydd o euogfarn am 5 mlynedd (neu dylai bod o leiaf 3 mlynedd fod wedi mynd heibio ers cwblhau'r ddedfryd, pa un bynnag sydd hwyaf):

- Achosi marwolaeth drwy yrru peryglus;
- Achosi marwolaeth drwy yrru: gyrwyr heb drwydded, sydd wedi'u gwahardd neu sydd heb yswiriant;
- Neu unrhyw droseddau tebyg.

#### 14.0 Euogfarnau Moduro

14.1 Mae'r holl droseddau moduro a'r pwyntiau cosb wedi'u rhestru yn Atodiad A.

#### 14.2 Troseddau Traffig Mawr

14.3 At ddibenion y Polisi hwn, mae'r troseddau moduro canlynol yn cael eu hystyried yn 'Droseddau Traffig Mawr':

AC10	Methu ag aros ar ôl damwain
AC20	Methu rhoi manylion neu roi gwybod am ddamwain o fewn 24 awr
AC30	Troseddau damweiniau heb eu diffinio
BA10	Gyrru tra byddwch wedi'ch gwahardd drwy orchymyn Llys
BA30	Ceisio gyrru tra byddwch wedi'ch gwahardd drwy orchymyn Llys
CU80	Defnyddio ffôn symudol wrth yrru cerbyd
DD40	Gyrru peryglus
DD90	Gyrru gwyllt
IN10	Defnyddio cerbyd heb ei yswirio yn erbyn risgiau trydydd parti
LC20	Gyrru'n groes fel arall i amodau'r drwydded
LC30	Gyrru ar ôl gwneud datganiad ffug ynglŷn ag addasrwydd wrth wneud cais
LC40	Gyrru cerbyd ar ôl methu â rhoi hysbysiad am anabledd
LC50	Gyrru ar ôl i drwydded gael ei dirymu neu ei gwrthod ar sail feddygol
MS50	Rasio modur ar briffordd



MS60	Troseddau nad ydynt wedi'u cwmpasu gan godau eraill
MS90	Methiant i roi gwybodaeth ar bwy oedd yn gyrru, ac yn y blaen
UT50	Cymryd cerbyd waethygedig

- 14.4 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn neu fater arall i'w ystyried ar gyfer trosedd traffig fawr ac nad ydynt wedi bod yn rhydd o euogfarn neu fater arall i'w ystyried am o leiaf 12 mis. Pan fydd dedfryd yn cynnwys gwaharddiad yna bydd adran 15 yn berthnasol hefyd.
- 14.5 Fel arfer gwrthodir cais lle bydd mwy nac un Trosedd Traffig Fawr ac ni ddylid ystyried unrhyw gais pellach nes y bydd cyfnod o o leiaf 3 blynedd yn rhydd o euogfarnau o'r fath neu faterion eraill i'w hystyried. Pan fydd dedfryd yn cynnwys gwaharddiad yna bydd adran 15 yn berthnasol hefyd.
- 14.6 Os bydd unrhyw euogfarn neu fater arall i'w ystyried ar gyfer Trosedd Traffig Fawr yn arwain at waharddiad, dylai ymgeiswyr gyfeirio at yr adran "gwaharddiad" yn y canllawiau hyn.
- 14.7 **Mân Droseddau Traffig**
- 14.8 Bydd Troseddau Traffig eraill nad ydynt wedi'u rhestru yn y polisi hwn yn cael eu trin fel "Mân Droseddau Traffig" at ddibenion y Polisi hwn. Mae mân drosedd yrru yn un sy'n arwain at rhwng 1 a 3 pwynt cosb.
- 14.9 Pan fydd gan ymgeisydd/deiliad trwydded un euogfarn neu fater arall i'w ystyried am fân drosedd gyrru, ni fydd hyn fel arfer yn arwain at wrthod neu atal / dirymu ac ni fydd fel arfer yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor.
- 14.10 Gallai mwy nac un mân euogfarn traffig neu fater arall i'w ystyried arwain at wrthod trwydded, yn arbennig pan fydd nifer o euogfarnau am yr un drosedd, er enghraifft goryrru, neu faterion eraill i'w hystyried. Gellir cyfeirio gyrrwr trwyddedig i'r Pwyllgor Trwyddedu pan fydd patrwm o aildroseddu dros gyfnod hwy o amser.
- 14.11 **Troseddau Yswiriant**
- 14.12 Gellir cyfeirio gweithredwr y profir eu bod wedi helpu ac annog gyrru teithwyr ar gyfer hurio a gwobr heb yswiriant at y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol. Gallai hyn arwain at atal neu ddirymu Trwydded y Gweithredwr.
- 15.0 **Gwaharddiad rhag Gyrru**
- 15.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn trin cyfnod o waharddiad fel cyfnod y byddai gyrrwr wedi bod yn gymwys i wasanaethu, a gallai anwybyddu penderfyniad llys i hepgor neu leihau cyfnod gwaharddiad ar sail caledi eithriadol o dan A.35 Deddf Tramgwyddwyr Traffig 1988 neu am "resymau arbennig" o dan A.34 Deddf Tramgwyddwyr Traffig 1988 neu *waharddiad wedi'i leihau ar ôl cwblhau cwrs adsefydlu gyrrwr.*

- 15.2 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn ddiweddar neu fater arall i'w ystyried sy'n arwain at gyfnod o waharddiad o lai na 56 diwrnod oni fydd cyfnod o o leiaf 12 mis wedi mynd heibio ers diwedd y cyfnod y gwaharddiad.
- 15.3 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn ddiweddar neu fater arall i'w ystyried sy'n arwain at gyfnod o waharddiad o hyd at 12 mis oni fydd cyfnod o **o leiaf 18 mis** wedi mynd heibio ers diwedd y cyfnod y gwaharddiad
- 15.4 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn ddiweddar neu fater arall i'w ystyried sy'n arwain at gyfnod o waharddiad o hyd at 12 mis oni fydd cyfnod o o leiaf 3 blynedd wedi mynd heibio ers diwedd y cyfnod y gwaharddiad.
- 15.5 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn cymeradwyo cais am drwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni i unigolyn sydd wedi'i wahardd rhag gyrru am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy.

## **16.0 Gwybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarnau**

### Ymgeiswyr Newydd

- 16.1 Os yw'r unigolyn yn destun arestiad, dyled heb ei thalu neu wŷs, gellir parhau i brosesu eu cais, ond bydd angen adolygu'r cais ar ddiwedd y gweithrediadau.
- 16.2 Os yw'r ddyled heb ei thalu neu'r wŷs yn ymwneud â throedd difrifol ac / neu mae hanes euogfarnau'r unigolyn yn dangos patrwm posibl o ymddygiad anghyfreithlon, yna er budd diogelwch y cyhoedd gellir gohirio'r cais nes y bydd gweithrediadau wedi dod i ben neu gellir gwrthod y cais.

### Deiliaid Trwydded

- 16.3 I ddeiliad trwydded presennol, sy'n destun arestiad, dyled heb ei thalu neu wŷs, bydd yr Awdurdod yn ystyried yr holl dystiolaeth sydd ganddo a gallai hyn arwain at ddirymiad.
- 16.4 Wrth asesu'r camau i'w cymryd ar gyfer ymgeiswyr newydd a deiliaid trwydded presennol, mae'n rhaid i ddiogelwch y cyhoedd sy'n teithio fod yn hollbwysig.
- 16.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ymwybodol bod safon y prawf sy'n berthnasol mewn achosion troseddol a sifil yn wahanol. Y safon prawf wrth wneud penderfyniadau yw'r dull sifil, ar gydbwysedd tebygolrwydd.

## **17.0 Aildroseddu**

- 17.1 Er ei bod yn bosibl bod gan ymgeisydd nifer o euogfarnau neu faterion eraill i'w hystyried sy'n cyflawni'r canllawiau uchod yn unigol, gwrthodir cais fel arfer pan fydd gan ymgeisydd gofnod o aildroseddu sy'n dangos diffyg ystyriaeth i les eraill neu i eiddo, oni fydd cyfnod o o leiaf 10 mlynedd wedi mynd heibio ers yr euogfarn ddiweddaraf neu faterion eraill i'w hystyried.

## **18.0 Torri Deddfwriaeth, Is-ddeddf neu Amod Trwydded**

- 18.1 Mae'n annhebygol y rhoddir trwydded i ymgeisydd sydd ag euogfarn neu faterion eraill i'w hystyried am dorri deddfwriaeth, is-ddeddf neu amod trwydded oni fydd cyfnod o **o leiaf 12 mis** wedi mynd heibio ers yr achos mwyaf diweddar o dorri un o'r uchod.

- 18.2 Mae deiliad trwydded presennol y canfyddir eu bod wedi torri deddfwriaeth, is-ddeddf neu amod trwydded, ar yr achlysur cyntaf, yn debygol o dderbyn rhybudd ysgrifenedig ar eu hymddygiad yn y dyfodol, ar yr amod nad oedd yr achos o dorri yn cyfaddawdu diogelwch teithwyr neu nad oedd y cyhoedd mewn perygl.
- 18.3 Pan ganfyddir bod gan ddeiliad trwydded presennol fwy nac un achos o dorri deddfwriaeth drwyddedu, is-ddeddf neu amod trwydded, neu un achos difrifol o dorri, gall y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol atal neu ddirymu'r drwydded.
- 18.4 Mae'r uchod yn berthnasol p'un a yw unrhyw weithredoedd cyfreithiol i'w cynnal neu wedi'u cynnal.

## **19.0 Ymgeiswyr â chyfnodau'n byw y tu allan i'r DU**

- 19.1 Os bydd ymgeisydd wedi treulio chwe mis parhaus neu fwy dramor (ers iddynt fod yn 16 oed) bydd y cyngor yn disgwyl gweld tystiolaeth o wiriad o gofnodion troseddol gan y wlad/gwledydd yr ymwelwyd â hi/hwy yn ystod y cyfnod hwn. I ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd, bydd angen datgeliad tebyg i wiriad DBS y DU, ar gyfer y gwledydd hynny lle nad oes gwiriadau ar gael, bydd angen tystiolaeth o ymddygiad da ar y Cyngor, wedi'i llofnodi gan y llysgenhadaeth berthnasol.
- 19.2 Nid yw hyn yn effeithio ar y gofyniad i ddarparu datgeliad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gwybodaeth bellach am y dulliau o gael prawf ar gael ar wefan y DBS [www.gov.uk/disclosure-barring-service](http://www.gov.uk/disclosure-barring-service); [www.crb.gov.uk/overseas](http://www.crb.gov.uk/overseas)

## **20.0 Trwyddedau a gyhoeddir gan Awdurdodau Eraill**

- 20.1 Pan fydd cais am drwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat/cerbyd hacni neu weithredwr cerbyd hurio preifat wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol er mwyn gwneud penderfyniad arno o ran y polisi hwn, a bod gan yr ymgeisydd drwydded o'r fath a roddwyd gan awdurdod trwyddedu arall, dylai'r canllaw yn y polisi hwn gael blaenoriaeth dros unrhyw benderfyniad a wnaed gan awdurdod trwyddedu arall.

## **21.0 Crynodeb**

- 21.1 Er na fydd hanes troseddol ynddo'i hun o reidrwydd yn arwain yn awtomatig at wrthod cais ac ni ddylai euogfarn bresennol am drosedd ddifrifol wahardd ymgeisydd yn barhaol rhag cael ei drwyddedu, yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir i ymgeisydd fod yn rhydd o euogfarn am rhwng 3 a 10 mlynedd (mae'r cyfnod o amser yn dibynnu ar y drosedd a gyflawnwyd, fel y nodwyd uchod), cyn y bydd cais yn debygol o fod yn llwyddiannus.
- 21.2 Er ei bod yn bosibl i ymgeisydd fod wedi cael nifer o euogfarnau sydd, yn unigol, yn cyflawni'r canllawiau uchod, mae'n rhaid ystyried yr hanes troseddu cyffredinol wrth asesu addasrwydd ymgeisydd i gael ei drwyddedu. Mae cyfres o droseddau dros gyfnod o amser yn fwy tebygol o achosi pryder nac un mân euogfarn. Yn amlwg, gellir defnyddio rhywfaint o ddisgresiwn os bydd y drosedd a ddatgelwyd yn un unigol a bod amgylchiadau lliniarol, ond y brif ystyriaeth yw diogelwch y cyhoedd.

## **Atodiad A – Troseddau Moduro a phwyntiau cosb**

Mae'r canlynol yn ganllaw i'r nifer o bwyntiau cosb y gallai llys eu rhoi, nid yw'n adlewyrchu'r ffaith y gallai rhai troseddau arwain at waharddiad. Mae'r codau hyn wedi'u cofnodi o wybodaeth a ddarparwyd gan y llysoedd (ac roeddent yn gywir ar adeg y ddogfen hon).

Cod		
AC10	Methu ag aros ar ôl damwain	5-10
AC20	Methu rhoi manylion neu roi gwybod am ddamwain o fewn 24 awr	5-10
AC30	Troseddau damweiniau heb eu diffinio	4-9
BA10	Gyrru tra byddwch wedi'ch gwahardd drwy orchymyn llys	6
BA30	Ceisio gyrru tra byddwch wedi'ch gwahardd drwy orchymyn llys	6
CD10	Gyrru heb ofal a sylw dyledus	3-9
CD20	Gyrru heb ystyriaeth resymol i ddefnyddwyr ffordd eraill	3-9
CD30	Gyrru heb ofal a sylw dyledus neu heb ystyriaeth resymol i ddefnyddwyr ffordd eraill	3-9
CD40	Achosi marwolaeth drwy yrru diofal pan yn anaddas i yrru oherwydd alcohol	3-11
CD50	Achosi marwolaeth drwy yrru diofal pan yn anaddas i yrru oherwydd cyffuriau	3-11
CD60	Achosi marwolaeth drwy yrru diofal gyda lefel alcohol uwch na'r uchafswm	3-11
CD70	Achosi marwolaeth drwy yrru diofal yna methu â darparu sampl i'w ddadansoddi	3-11
CD71	Achosi marwolaeth drwy yrru diofal yna methu â darparu sampl ar gyfer dadansoddiad cyffuriau.	3-11
CD80	Achosi marwolaeth drwy yrru diofal neu anystyriol	3-11
CD90	Achosi marwolaeth drwy yrru: gyrwyr heb drwydded, wedi'u gwahardd neu heb yswiriant	3-11
CU10	Defnyddio cerbyd â brecioau diffygiol	3
CU20	Achosi neu'n debygol o achosi perygl drwy ddefnyddio cerbydau anaddas neu ddefnyddio cerbydau â rhannau neu ategolion (gan gynnwys brecioau, llyw neu deiars) sydd mewn cyflwr peryglus	3
CU30	Defnyddio cerbyd â theiar(s) diffygiol	3
CU40	Defnyddio cerbyd â llyw diffygiol	3
CU50	Achosi neu'n debygol o achosi perygl oherwydd llwyth neu deithwyr	3
CU80	Defnyddio ffôn symudol wrth yrru cerbyd	6

<b>Gyrru Peryglus</b>		
DD40	Gyrru Peryglus	3-11
DD60	Dynladdiad neu ddynladdiad beius wrth yrru cerbyd	3-11
DD90	Gyrru Gwyllt	3-9
DR10	Gyrru neu geisio gyrru gyda lefelau alcohol uwchben yr uchafswm	3-11
DR20	Gyrru neu geisio gyrru pan yn anaddas i yrru oherwydd alcohol	3-11
DR30	Gyrru neu geisio gyrru yna methu â darparu sbesimen i'w ddadansoddi	3-11
DR40	Yn gyfrifol am gerbyd pan fydd lefelau alcohol yn uwch na'r uchafswm	10
DR50	Yn gyfrifol am gerbyd pan yn anaddas i yrru oherwydd alcohol	10
DR60	Methiant i ddarparu sbesimen i'w ddadansoddi mewn amgylchiadau ar wahân i yrru neu geisio gyrru	10
DR61	Methiant i ddarparu sbesimen ar gyfer dadansoddiad cyffuriau mewn amgylchiadau ar wahân i yrru neu geisio gyrru	10
DR70	Methiant i ddarparu sbesimen ar gyfer prawf anadl	4
DR80	Gyrru neu geisio gyrru pan yn anaddas i yrru oherwydd cyffuriau	3-11
DR90	Yn gyfrifol am gerbyd pan yn anaddas i yrru oherwydd cyffuriau	3-11
IN10	Defnyddio cerbyd nad yw wedi'i yswirio yn erbyn risgiau trydydd parti	6-8
LC20	Gyrru'n groes fel arall i amodau'r drwydded	3-6
LC30	Gyrru ar ôl gwneud datganiad ffug ynglŷn ag addasrwydd wrth wneud cais am drwydded	3-6
LC40	Gyrru cerbyd ar ôl methu â rhoi hysbysiad am anabledd	3-6
LC50	Gyrru ar ôl i drwydded gael ei dirymu neu ei gwrthod ar sail feddygol	3-6
MS10	Gadael cerbyd mewn lleoliad peryglus	3
MS20	Reidio piliwn anghyfreithlon	3
MS30	Troseddau chwarae ar y stryd	2
MS50	Rasio moduron ar y briffordd	3-11
MS60	Troseddau nad ydynt wedi'u cwmpasu gan godau eraill	Fel y bo'n briodol

MS70	Gyrru gyda golwg diffygiol heb ei gywiro	3
MS80	Gwrthod cyflwyno i gael prawf llygaid	3
MS90	Methiant i roi gwybodaeth ar bwy oedd yn gyrru, ac yn y blaen	3
<b>Troseddau ar y Draffordd</b>		
MW10	Torri Rheoliadau Ffyrdd Arbennig (ac eithrio cyfyngiadau cyflymder)	3
<b>Croesfannau Cerddwyr</b>		
PC10	Achos heb ei ddiffinio o dorri Rheoliadau Croesfannau Cerddwyr	3
PC20	Torri Rheoliadau Croesfannau Cerddwyr gyda cherbyd sy'n symud	3
PC30	Torri Rheoliadau Croesfannau Cerddwyr gyda cherbyd llonydd	3
<b>Cyfyngiadau Cyflymder</b>		
SP10	Gyrru'n gyflymach na'r cyfyngiadau cyflymder i gerbydau nwyddau	3-6
SP20	Gyrru'n gyflymach na'r cyfyngiad cyflymder ar gyfer y math o gerbyd (ac eithrio cerbydau nwyddau neu deithwyr)	3-6
SP30	Gyrru'n gyflymach na'r cyfyngiad cyflymder ar ffordd gyhoeddus	3-6
SP40	Gyrru'n gyflymach na'r cyfyngiad cyflymder i gerbydau teithwyr	3-6
SP50	Gyrru'n gyflymach na'r cyfyngiad cyflymder ar draffordd	3-6
<b>Cyfeiriadau ac Arwyddion Traffig</b>		
TS10	Methiant i gydymffurfio ag arwyddion goleuadau traffig	3
TS20	Methiant i gydymffurfio â llinellau gwyn dwbl	3
TS30	Methiant i gydymffurfio ag arwydd 'Aros'	3
TS40	Methiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd cwnstabl/warden	3
TS50	Methiant i gydymffurfio ag arwydd traffig (ac eithrio arwyddion aros, arwyddion traffig neu linellau gwyn dwbl)	3
TS60	Methiant i gydymffurfio ag arwydd patrôl croesfan ysgol	3
TS70	Methiant heb ei ddiffinio i gydymffurfio ag arwydd cyfeiriadau traffig	3
<b>Cod Arbennig</b>		
TT99	I ddynodi gwaharddiad o dan weithdrefn pentyrru pwyntiau. Os bydd cyfanswm y pwyntiau cosb yn cyrraedd 12 neu fwy o fewn 3 Blynedd, gellir gwahardd y gyrrwr	
<b>Lladrad neu Gymryd heb Awdurdod</b>		

UT50	Achos gwaethygedig o gymryd car	3-11
------	---------------------------------	------

## **Atodiad 2**

### **ENGHRAIFFT O DRWYDDED**

**Rhif «LicenceNo»**



## TRWYDDED GYRRWR HURIO PREIFAT

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol), 1976 YN TRWYDDEDU TRWY HYN «ForeName» «Surname»

o «Add1» «Add2» «Add3» «Add4»

i weithredu fel gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam o'r dyddiad hwn hyd at a chan gynnwys «Expiry» oni bai eu bod wedi eu hatal neu eu dirymu yn flaenorol, yn amodol ar gydsyniad Perchennog Cerbydau o'r fath a darpariaethau'r Ddeddf y cyfeirir ati a statud o'r fath, Gorchymyn, Rheolau, Rheoliadau ac Is-ddeddfau ag y gall o bryd i'w gilydd fod mewn grym ar gyfer rheoleiddio Cerbydau Hurio Preifat a'r Perchnogion, Gyrrwr a Gweithredwyr o fewn y Fwrdeistref Sirol ac yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr Atodlen.

DYDDIEDIG

### Ar gyfer Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio

#### ATODLEN

#### AMODAU'R DRWYDDED

Diffiniadau: Yn yr amodau hyn, ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd y geiriau a'r ymadroddion canlynol yn golygu'r ystyron canlynol:-

Ystyr "**Swyddog Awdurdodedig**" yw person a awdurdodwyd gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio i gyflawni dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi trwyddedau hurio preifat a gorfodi deddfwriaeth sy'n ymwneud â hurio preifat;

Mae "**Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio**" yn golygu'r person sy'n cael ei benodi i'r swydd honno yng Nghyngor Wrecsam;

Mae "**Gyrrwr**" yn golygu'r person y mae trwydded Gyrrwr Hurio Preifat wedi'i chyhoeddi iddo gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio;

Mae "**Perchennog**" yn golygu'r person y mae trwydded Cerbyd Hurio Preifat wedi'i chyhoeddi iddo gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio;

Mae "**Gweithredwr**" yn golygu'r person y mae'r drwydded Gweithredwr hon wedi'i chyhoeddi iddo;

Mae "**Cerbyd**" yn golygu cerbyd y mae'r drwydded Cerbyd Hurio Preifat wedi'i chyhoeddi ar ei gyfer gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio;

1 Bydd y gyrrwr, tra'n gweithredu yn unol â thrwydded Gyrrwr Hurio Preifat:



- a) bob amser yn gwisgo'r bathodyn adnabod Gyrrwr Hurio Preifat a gyhoeddwyd yn unol ag Adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, mewn modd sy'n amlwg.
- b) yn arddangos yn y cerbyd Hurio Preifat, cerdyn adnabod, a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol, y tu mewn i'r ffenestr flaen sy'n rhoi manylion adnabod y gyrrwr tu mewn i'r cerbyd.
- c) yn sicrhau, mewn perthynas â'r Cerbyd, bod polisi yswiriant neu sicrwydd o'r fath mewn perthynas â'r cerbyd, fel sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI o Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1972, mewn grym a bod ef / hi wedi'i yswirio'n ddigonol i yrru'r cerbyd hurio preifat.
- d) bob amser yn ymddwyn mewn modd sifil a threfnus ac yn ymatal rhag defnyddio unrhyw iaith neu ymddygiad tramgwyddus;
- e) bob adeg wrth gario teithwyr, yn lân a pharchus yn ei wisg ac fel person;
- f) yn rhoi pob cymorth rhesymol i deithwyr gyda'u bagiau;
- g) dim ar unrhyw adeg tra'n cario teithwyr sy'n talu yn ysmegu, yfed na bwyta yn y cerbyd;
- h) dim heb ganiatâd penodol llogwr y cerbyd, yn chwarae unrhyw radio neu offer sy'n cynhyrchu sain neu unrhyw offer yn heblaw at ddiben anfon negeseuon at neu dderbyn negeseuon gan weithredydd y cerbyd;
- i) ar unrhyw adeg, yn achosi neu ganiatáu sŵn a allyrrir gan unrhyw radio neu offer arall a grybwyllir yn y cerbyd y maent yn ei yrru i fod yn ffynhonnell o annifyrrwch neu aflonyddwch i unrhyw berson boed y tu mewn neu'r tu allan i'r cerbyd;
- j) ar unrhyw adeg wrth yrru cerbyd, yn defnyddio ffôn symudol.

2 Ni fydd y gyrrwr yn:-

- a) cludo nac yn caniatáu i gael eu cludo mewn Cerbyd nifer uwch o deithwyr nag a bennir yn y Drwydded Hurio Preifat a gyhoeddwyd ar gyfer y Cerbyd;
- b) cludo nac yn caniatáu i gludo unrhyw berson arall yn y Cerbyd, heb ganiatâd huriwr y cerbyd.

3. Bydd y gyrrwr ar ôl gorffen llogi'r Cerbyd a yrrir ganddo/ganddi yn gwirio'r cerbyd am unrhyw eiddo a allai fod wedi cael ei adael yn ddamweiniol ynddo. Bydd unrhyw eiddo a ganfyddir gan neu a roddir i'r Gyrrwr yn cael ei gludo cyn gynted â phosibl a beth bynnag o fewn 24 awr (os nad yw wedi ei hawlio ynghynt gan neu ar ran y perchennog) i Orsaf Heddlu yn yr ardal ac yn cael ei adael gyda'r Heddlu ar ôl cael derbynneb am yr eiddo.

4. Bydd y Gyrrwr os gofynnir iddo gan logwr y Cerbyd yn darparu derbynneb ysgrifenedig am y pris a dalwyd.

5a) Ni fydd y Gyrrwr tra'n gweithredu yn unol â Thwydded Gyrrwr Hurio Preifat, yn cludo yn y Cerbyd unrhyw anifeiliaid sy'n perthyn i neu sy'n cael ei warchod ganddo ef/hi ei hun neu Berchennog neu Weithredwr y Cerbyd.

b) Gall unrhyw anifeiliaid sy'n perthyn i neu ym meddiant llogwr y Cerbyd gael eu cludo yn y Cerbyd yn ôl disgresiwn y Gyrrwr ar yr amod bod yr anifail yn cael ei gario yng nghefn y Cerbyd a'i atal yn y fath fodd fel ei fod yn methu ymyrryd â gyrru'r Cerbyd yn ddiogel.

c) Ni fydd y gyrrwr, heb rybudd dilys o esemptiad a ddyroddwyd o dan adran 37 o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, yn gwrthod cludo ci tywys, clyw neu gymorth arall.

6 Ar ôl cael contract ar gyfer hurio Cerbyd Hurio Preifat, bydd y Gyrrwr yn bresennol yn brydlon ar yr amser a lle penodedig i gasglu'r huriwr oni bai ei fod wedi'i ddal yn ôl neu ei atal rhag gwneud hynny gan amgylchiadau y tu hwnt i'w r/rheolaeth.

7 Bydd y gyrrwr bob amser wrth yrru Cerbyd Hurio Preifat yn cario copi o'r amodau hyn gydag ef a bydd yn ei wneud ar gael i'w archwilio gan y llogwr neu unrhyw deithiwr neu Swyddog Awdurdodedig neu Gwnstabl ar gais.

8 Os yw'r gyrrwr wedi cael caniatâd neu yn cael ei gyflogi i yrru Cerbyd lle nad ef/hi yw'r Perchennog, bydd ef/hi cyn dechrau gyrru'r cerbyd, yn gadael ei drwydded Gyrrwr Hurio Preifat gyda'r perchennog i'w chadw gan y Perchennog hyd nes fydd y Gyrrwr ddim yn cael ei ganiatáu neu ei gyflogi i yrru'r Cerbyd hwnnw neu unrhyw Gerbyd arall sy'n perthyn i'r Perchennog.

9 Os bydd y Cerbyd wedi cael ei ffitio â mesurydd ar gyfer cofnodi prisiau ni fydd y Gyrrwr yn achosi i'r pris a gofnodir ar hynny i gael ei ganslo neu ei guddio hyd nes bydd yr huriwr wedi cael cyfle rhesymol i'w archwilio ac wedi talu'r pris.

10 Ni fydd y gyrrwr yn:-

a) gofyn wrth y llogwr am bris sy'n fwy na'r swm y cytunwyd arno yn flaenorol ar gyfer y llogi rhwng y llogwr a'r Gweithredwr ar yr amod nad yw'r llogwr yn gofyn am unrhyw amrywiadau i'r gyrchfan a ddyfynnwyd neu

b) os yw'r Cerbyd wedi cael ei ffitio â mesurydd i gofnodi prisiau ac na fu unrhyw gytundeb ymlaen llaw ynghylch y pris, gofyn i'r llogwr am bris sy'n uwch na'r pris a ddangosir ar y mesurydd.

11 Bydd y Gyrrwr yn hysbysu Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio yn ysgrifenedig am unrhyw newid yn ei g/chyfeiriad yn ystod cyfnod y drwydded o fewn saith diwrnod ar ôl i unrhyw newid ddigwydd.

12 Bydd y gyrrwr o fewn saith diwrnod yn datgelu i Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio yn ysgrifenedig fanylion am unrhyw euogfarnau (gan gynnwys rhybuddion, rhybuddion cosb benodedig a rhybuddion cosb benodedig mewn perthynas â throeddau traffig) a roddwyd iddo/iddi.

13 Rhaid i'r gyrrwr ar ôl i'r drwydded ddod i ben, dirymu neu atal y drwydded, ddychwelyd y bathodyn a roddwyd iddo i Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio ar unwaith.

14 Bydd y Gyrrwr yn hysbysu Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol am unrhyw anabledd neu nam a allai effeithio ar ei allu/gallu i yrru ac ni fydd yn gyrru cerbyd tra yr effeithir arno gan anabledd neu nam o'r fath neu tra'n rhy wael yn feddygol.

15 Ni fydd y Gyrrwr yn canu ei gorn y tu allan i unrhyw eiddo lle maent wedi cael eu hanfon am bris waeth pa bynnag awr o'r dydd.

16 Bydd y Gyrrwr yn hysbysu Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio yn ysgrifenedig am unrhyw newid o ran Gweithredwr yn ystod cyfnod y drwydded o fewn saith diwrnod ar ôl i unrhyw newid ddigwydd.

17 Bydd y Gyrrwr bob amser yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i'r graddau y maent yn gymwys i Yrwy'r Hurio Preifat, Cerbydau a Gweithredwyr a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol arall am y cyfnod mewn grym.

18 Rhaid i yrrwr gwblhau'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu pan fydd angen gan y Gwasanaeth Trwyddedu.

GALL TORRI'R AMODAU HYN GAEL EI YSTYRIED YN SAIL I ATAL, DIDDYMU NEU WRTHOD ADNEWYDDU'R DRWYDDED.

### **Hawl Apelio**

**Os ydych wedi eich tramgwyddo gan unrhyw un o amodau'r drwydded hon mae gennych yr hawl i apelio i Lys Ynadon o fewn 21 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwyd y drwydded.**

**02/2017**



### TRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol), 1976 a phob pŵer ac awdurdod arall sy'n eu galluogi

**DRWY HYN YN RHOI TRWYDDED** ar gyfer y cerbyd sy'n dwyn y Rhif Cofrestru «RegNo»

y mae «Name1»

o «Add11» «Add12» «Add13» «Add14»

(yn) berchennog (berchnogion) arno i ddefnyddio'r cerbyd ar gyfer hurio preifat yn y Fwrdeistref Sirol o'r dyddiad hwn a hyd at a chan gynnwys y «Expiry» oni bai ei fod wedi ei atal neu ei ddirymu yn flaenorol, ac i gario dim mwy na «Passengers» o bobl (heb gynnwys y gyrrwr), yn amodol ar ddarpariaethau'r Ddeddf, a Statudau, Gorchmynion, Rheolau, Rheoliadau ac Is-ddeddfau ag y gall o bryd i'w gilydd fod mewn grym ar gyfer rheoleiddio Cerbydau Hurio Preifat a'r Perchnogion, Gyrrwyr a Gweithredwyr o fewn y Fwrdeistref Sirol ac yn amodol ar yr amodau a bennir yma.

DYDDIEDIG y

### Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio

#### ATODLEN

#### AMODAU'R DRWYDDED

Yn yr amodau hyn, ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd y geiriau a'r ymadroddion canlynol yn golygu'r ystyron canlynol:

**Ystyr "Swyddog Awdurdodedig" yw person a awdurdodwyd gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio i gyflawni dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi trwyddedau hurio preifat a gorfodi deddfwriaeth sy'n ymwneud â hurio preifat;**

**Mae "Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio" yn golygu'r person am y tro sy'n cael ei benodi i'r swydd honno yng Nghyngor Wrecsam;**

**Mae "Perchennog" yn golygu'r person y mae'r drwydded Cerbyd Hurio Preifat hon wedi'i chyhoeddi iddo gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio;**

**Mae "Gweithredwr" yn golygu'r person y mae trwydded wedi'i chyhoeddi iddo gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio, i weithredwr Cerbydau Hurio Preifat;**

**"Cerbyd" yw'r Cerbyd y cyhoeddwyd y Drwydded Cerbyd Hurio Preifat ar ei gyfer;**

**Mae "Platiau Trwydded" yn golygu'r platiau a gyhoeddir gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio i gael eu gosod ar y cerbyd, yn cynnwys manylion y cerbyd, uchafswm nifer y teithwyr i'w cludo a rhif trwydded y cerbyd;**

**Mae "Rhif Trwydded y Cerbyd" yn golygu'r rhif a briodolir i'r drwydded cerbyd hurio preifat hwn.**

1.
  - i) Bydd y cerbyd a'i holl ffitiadau bob amser yn ystod cyfnod y drwydded yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr effeithlon, diogel a glân.
  - ii) Bydd y cerbyd yn bodloni'r holl ofynion statudol perthnasol a Rheoliadau Cerbydau Modur (Adeiladu a Defnyddio) a bydd Tystysgrif Cydymffurfiaeth cyfredol mewn grym wedi'i chyhoeddi gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio.
  - iii) Bydd y Cerbyd bob amser yn arddangos trwydded ecseis cerbyd gyfredol.
  - iv) Rhaid bod mewn grym, mewn perthynas â'r cerbyd, tystysgrif prawf MOT ddilys (os yw'n briodol).
  
2. Ni fydd unrhyw addasiadau sylweddol neu newid o unrhyw fath yn y fanyleb, dyluniad, cyflwr nac ymddangosiad yn cael ei wneud i'r cerbyd ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod y mae'r drwydded mewn grym heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio.
  
3.
  - i) Bydd y platiau trwydded sy'n nodi'r cerbyd fel Cerbyd Hurio Preifat bob amser yn ystod y cyfnod y mae'r drwydded mewn grym yn cael eu gosod yn ddiogel yn allanol i flaen a chefn y cerbyd mewn man amlwg dim is na lefel y bympar blaen a chefn, ac eithrio o dan amgylchiadau o'r fath ag a ragnodir yn Adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.
  - ii) Bydd y platiau trwydded yn cael eu gosod mewn modd fel na ellir eu tynnu'n rhydd neu newid eu safle mewn unrhyw ffordd gan symudiad y Cerbyd ac yn arbennig byddant i'w gweld yn glir i gerddwyr a modurwyr eraill. Byddant yn cael eu gosod fel y gellir eu tynnu yn rhydd gan swyddog awdurdodedig neu Gwnstabl.
  - iii) Bydd platiau trwydded y cerbyd yn cael eu cadw'n lân ac ni fydd rhif y drwydded sy'n cael ei harddangos yn cael ei chuddio nac o'r golwg drwy unrhyw fodd, gan gynnwys unrhyw faw, saim, budreddi neu aflwiad arall.
  
4. Bydd y perchennog yn arddangos trwy'r adeg y tu mewn i'r Cerbyd, mewn safle sy'n weladwy i bobl sy'n cael eu cludo ynddo yr hysbysiad a gyhoeddwyd gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio yn nodi rhif trwydded y cerbyd a nifer y teithwyr a ganiateir i gael eu cario.
  
5. Bydd pecyn cymorth cyntaf sy'n cynnwys:-
  - i) chwe gorchudd gludiog di-haint wedi'u lapio'n unigol (plasteri)
  - ii) un gorchudd di-haint mawr
  - iii) dau rwymyn trionglog
  - iv) dau bin cau
  - v) cadachau glanhau llaith wedi'u lapio'n unigol
 yn cael ei gario yn y cerbyd bob amser a'i gadw'n ddiogel yn y bwt ac ar gael i'w defnyddio mewn argyfwng. Ni fydd unrhyw rwymedigaeth ar Yrwyrr Cerbydau Hurio Preifat i ymgymryd â thriniaeth cymorth cyntaf.
  
6.
  - a) Rhaid i'r cerbyd gario diffoddwr tân sy'n pwyso o leiaf 1kg sy'n cynnwys powdr sych. Bydd y diffoddwr tân wedi ei osod yn ddiogel mewn man fel nad yw'n amharu ar reolaeth y cerbyd ac fel nad yw aelod o'r cyhoedd yn ymyrryd ag ef.
  - b) Pob diffoddwr i gael ei wasanaethu bob blwyddyn gan arolygydd cymwys a chofnod arolygu gyda dyddiad priodol i fod ar gael.
  
7.
  - a) Bydd arwydd gludiog cyflawn, a ddarparwyd gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio yn cael ei arddangos ar flaen uchaf y ddwy ffenestr drws cefn er mwyn eu gweld yn glir gan bobl sy'n dod i mewn i'r cerbyd. Bydd yr arwydd o uchafswm maint 180 mm x 130 mm yn cynnwys y wybodaeth fel a nodwyd gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio.
  - b) Caniateir hefyd i arddangos Enw Gweithredwr y Cerbyd, Rhif Ffôn a/neu Gyfeiriad Gwefan ar sgrîn flaen a chefn y cerbyd. Ni ddylai unrhyw arddangosiad ymyrryd â gweledd neu beryglu diogelwch. Ni fydd unrhyw gyfeiriad at y gair "Cab" neu "Dacsi".

- c) Gallai ymddangos ar yr ochr, boned a gist car / arwynebedd drws y cerbyd enw, rhif ffon a / neu gwefan y Gweithredwr y mae'r perchennog y cerbyd yn gweithio. Ni fydd unrhyw gyfeiriad at y gair "Cab" neu "Taksi". Caniateir y geiriau "Tapia'r Ap", i'w harddangos yn ddwyiethiog.
  - d) Caniateir logos cwmni'r Gweithredwr. Gyda'r eithriadau uchod, ni ddylir anrddangos unrhyw arwyddion, hybysebion, plateau, marciau, rhifau neu arwyddluniau na dyfeisiau o gwybl ar, yn y cerbyd neu oddi yno, ac eithrio fel y bo'n ofynnol gan unrhyw statudol or amodau hyn, neu a chyn hynny awdurdodiad ysgrifenedig y Cyngor.
  - e) Dylid arddangos yn y Cerbyd Hurio Preifat, Cerdyn Adnabod, a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol, y tu mewn i'r ffenestr flaen sy'n rhoi manylion adnabod y gyrrwr tu mewn i'r cerbyd.
8. Bydd y Gyrrwr yn hysbysu Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio yn ysgrifenedig am unrhyw newid yn ei g/chyfeiriad yn ystod cyfnod y drwydded o fewn saith diwrnod ar ôl i unrhyw newid ddigwydd.
9. Bydd y perchennog o fewn saith diwrnod yn datgelu i'r Cyngor yn ysgrifenedig manylion unrhyw euogfarn a osodwyd arno (neu os yw'r perchennog yn gwmni neu bartneriaeth ar unrhyw un o'r cyfarwyddwyr neu bartneriaid) yn ystod cyfnod y drwydded.
10. Os yw'r perchennog yn caniatáu neu'n cyflogi unrhyw berson arall i yrru'r Cerbyd tra mae'n cael ei drwyddedu fel Cerbyd Hurio Preifat, bydd ef/hi cyn i'r unigolyn hwnnw ddechrau gyrru'r cerbyd yn;
- a) canfod bod gan yr unigolyn Drwydded Gyrrwr Hurio Preifat gyfredol a gyhoeddwyd gan Gyngor Wrecsam yn unol ag Adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol), 1976.
  - b) peri i'r unigolyn hwnnw roi yng ngofal y Perchennog ei Drwydded Gyrrwr Hurio Preifat ar gyfer ei chadw hyd nes fydd y Gyrrwr ddim yn cael neu ddim yn cael ei gyflogi i yrru'r cerbyd.
11. Bydd y perchennog yn hysbysu Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio yn ysgrifenedig am unrhyw ddamwain sy'n cynnwys y Cerbyd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn saith deg dau awr ar ôl i'r ddamwain ddigwydd.
12. Bydd y perchennog yn hysbysu Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio yn ysgrifenedig o fewn saith diwrnod i'r gwerthiant, trosglwyddiad neu warediad arall o'r cerbyd yn ystod cyfnod y drwydded.
13. Bydd y Perchennog o fewn saith diwrnod yn hysbysu Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio yn ysgrifenedig am unrhyw gwyn a wnaed ynghylch:
- a) ymddygiad Gyrrwr y Cerbyd
  - b) cyflwr y Cerbyd
14. Dim trelars i gael eu defnyddio gan unrhyw Gerbyd Hurio Preifat.
15. Gall blychau to fel y nodir gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio gael eu gosod a'u defnyddio ar Gerbydau Hurio Preifat fel y diffinnir yn y Ddogfen Gofynion Cerbydau.
16. Rhaid i ddeiliad y drwydded roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig cyn gosod System Teledu Cylch Caeedig (TCC) yn y cerbyd. Ni fydd Systemau TCC mewn cerbydau yn recordio sain a rhaid iddynt gydymffurfio a thelerau "Polisi ar Osod a Gweithrediad Systemau TCC mewn Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hacni". Bydd perchennog y cerbyd yn sicrhau bod arwyddion priodol wedi'u harddangos yn y cerbyd, fel eu bod yn weladwy o du mewn a thu allan y cerbyd yn unol â'r polisi.

GALL TORRI'R AMODAU HYN GAEL EI YSTYRIED YN SAIL I ATAL, DIDDYMU NEU WRTHOD ADNEWYDDU'R DRWYDDED.

**Hawl i Apelio Os ydych wedi eich tramgwyddo gan unrhyw un o amodau'r drwydded hon mae gennych yr hawl i apelio i Lys Ynadon o fewn 21 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwyd y drwydded. 02/2019**

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

### GOFYNION CERBYDAU HURIO PREIFAT

1 a Rhaid i'r cerbyd gael pedair olwyn a lleiafswm o bedwar drws. Rhaid i'r drysau gynnwys dau ddrws ar ochr agosaf ac ochr agored y cerbyd ac nid yw'n cynnwys drysau car cefn Codi / cist. Nid yw'r gofyniad am leiafswm o bedwar drws yn berthnasol i fws mini a adeiladwyd i bwrpas gydag eil.

- b Rhaid i'r cerbyd gario olwyn sbâr ac offer a chyfarpar digonol i alluogi gosod yr olwyn sbâr petai difrod neu bunjar. Lle nad yw'r gwneuthurwr yn darparu olwyn sbâr rhaid darparu Teiar Rhedeg Fflat / Erosol Ewyn yn y cerbyd.
- 2 Rhaid i faint peiriant y cerbyd fod yn 1400cc o leiaf.
- 3 Rhaid cyflwyno cerbydau i'w harchwilio mewn cyflwr glân ac addas i'r ffordd a dylai corff y cerbyd fod yn rhydd o unrhyw rwd.
- 4 Ni fydd cerbydau'n cael eu cyflwyno ar gyfer archwiliad os ydynt wedi eu difrodi mewn damwain a rhaid hysbysu Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio o unrhyw ddifrod o fewn 72 awr o'r difrod yn digwydd.
- 5 Rhaid i'r cerbyd yrru ar y dde ac eithrio limwsinau estynedig.
- 6 Ni ddylai'r cerbyd fod o fath, cynllun nac ymddangosiad a fyddai'n peri i rywun gredu bod y cerbyd yn gerbyd hacni. **Ni fydd cerbydau Manyleb Cerbyd Hacni yn dderbyniol.**
- 7 Rhaid i'r cerbyd allu cario o leiaf pedwar o deithwyr yn ychwanegol at y gyrrwr a dim mwy nag wyth o deithwyr. Rhaid i'r seddi ôl fod fel y'u gwnaethpwyd a bod â gwregysau diogelwch priodol ar gyfer pob unigolyn. Isafswm lled derbyniol rhan o sedd fesul unigolyn yw 410 milimetr ar bwnt lletaf y sedd all gynnwys adrannau seddog anghyfartal. Dylai Limousines gael lleiafswm o chwech sedd ac uchafswm o wyth.
- 8 Rhaid i'r cerbyd a'i osodiadau ac offer gael ei gadw mewn cyflwr effeithlon, diogel a glân, a rhaid iddo gydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol, gan gynnwys yn benodol y rhai o fewn Rheoliadau Cerbydau Modur (Adeiladwaith a Defnydd).
- 9 Rhaid i seddi'r cerbyd fod wedi eu clustogi'n briodol a bod yn rhydd o ddifrod.
- 10 Rhaid i lawr y cerbyd gael carped priodol neu orchudd priodol arall.
- 11 a) Rhaid cael digon o le yn y cerbyd i gario bagiau teithwyr a rhaid i'r lle hwn fod yn lân ac yn ddwrglos. Ni ellir gosod rac ar y to.b) Gellir gosod blwch ar y to os :
  - i) yw'n cydymffurfio â Rheoliadau Traffig y Ffordd (adeiladwaith a defnydd) ac os yw'n briodol ar gyfer y math o gerbyd a ddefnyddir.
  - ii) yw'n gynhwysydd caeedig (nid yn rac to agored â gorchudd rhydd).
  - iii) yw'n cael ei ddefnyddio i gario bagiau ychwanegol megis clybiau golff, bagiau mawr ac ati ac nid ar gyfer cario nwyddau nac anifeiliaid byw.
  - iv) yw'r huriwr gyda'r cerbyd ar adeg defnyddio'r blwch to.
  - v) nad yw unrhyw ran o'r blwch na'i ffitiadau'n parhau ar y cerbyd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio i gario bagiau ychwanegol.
  - vi) nad oes hysbysebion, geiriau na rhifau ar y blwch ei hun.
- c) Dim trelars i gael eu defnyddio gan unrhyw Gerbyd Hurio Preifat.
- 12 a) Rhaid i'r cerbyd gael ei ffitio â diffoddwr tân powdr sych effeithlon sy'n pwyso o leiaf 1 kg. Bydd y diffoddwr wedi ei osod yn ddiogel mewn man fel nad yw'n amharu ar reolaeth y cerbyd ac fel nad yw aelod o'r cyhoedd yn ymyrryd ag ef.

- b) Pob diffoddwr i gael ei wasanaethu bob blwyddyn gan arolygydd cymwys a chofnod arolygu gyda dyddiad priodol i fod ar gael.
- 13 Rhaid i'r cerbyd gynnwys blwch cymorth cyntaf sy'n cynnwys:-  
 Pecyn cymorth cyntaf sy'n cynnwys:-  
 i) chwe gorchudd gludiog di-haint wedi'u lapio'n unigol (plasteri)  
 ii) un gorchudd di-haint mawr  
 iii) dau rwymyn trionglog  
 iv) dau bin cau  
 v) cadachau glanhau llaith wedi'u lapio'n unigol
- a dylai gael ei gario yn y cerbyd bob amser a'i gadw'n ddiogel yn y bwt i'w ddefnyddio mewn argyfwng. Ni fydd unrhyw rwymedigaeth ar Yrwy'r Cerbydau Hurio Preifat i ymgymryd â thriniaeth cymorth cyntaf.
- 14 Rhaid i unrhyw fesurydd a roddir yn y cerbyd fod mewn man nad yw'n weladwy tu allan i'r cerbyd ond sy'n amlwg iawn i'r teithwyr tu mewn.
- 15 Os trwyddedir y cerbyd ar hyn o bryd gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio ar gyfer hurio preifat, bydd gofyn gosod y plât trwydded a gyhoeddir gan y Cyngor yn ddiogel tu allan i flaen a chefn y cerbyd mewn man amlwg ac mewn modd sy'n ei gwneud yn hawdd i Swyddog Awdurdodedig neu Gwnstabl ei dynnu.
- 16 a) Bydd arwydd gludiog cyflawn, a ddarparwyd gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio yn cael ei arddangos ar flaen uchaf y ddwy ffenestr drws cefn er mwyn eu gweld yn glir gan bobl sy'n dod i mewn i'r cerbyd. Bydd yr arwydd o uchafswm maint 180 mm x 130 mm yn cynnwys y wybodaeth fel a nodwyd gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio .
- b) Caniateir hefyd i arddangos Enw Gweithredwr y Cerbyd, Rhif Ffôn a/neu Gyfeiriad Gwefan ar sgrin flaen a chefn y cerbyd. Ni ddylai unrhyw arddangosiad ymyrryd â gweledd neu roi diogelwch mewn perygl. Ni fydd unrhyw gyfeiriad at y gair "Cab" neu "Dacsi".
- c) Gallai ymddangos ar yr ochr, boned a gist car / arwynebedd drws y cerbyd enw, rhif ffon a / neu gyfeiriad gwefan y Gweithredwr y mae'r perchennog y cerbyd yn gweithio. Ni fydd unrhyw gyfeiriad at y gair "Cab" neu "Tacsi". Caniateir y geiriau "Tapia'r Ap", i'w harddangos y ddwyiethog.
- d) Caniateir logos cwmni'r Gweithredwr. Gyda'r eithriadau uchod, ni ddylir arddangos unrhyw arwyddion, hybysebion, platiau, marciau, rhifau neu arwyddluniau na dyfeisiau o gwbl ar y cerbyd, yn y cerbyd neu oddi yno, ac eithrio fel y bo'n ofynnol gan unrhyw ddarpariaeth statudol or' amodau hyn, neu a chyn hynny awdurdodiad ysgrifendeig y Cyngor.
- e) Arddangos yn y Cerbyd Hurio Preifat, Cerdyn Adnabod, a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol, y tu mewn i'r ffenestr flaen sy'n rhoi manylion adnabod y gyrrwr tu mewn i'r cerbyd.
- 17 Os trwyddedir y cerbyd ar hyn o bryd gan y Cyngor ar gyfer hurio preifat, rhaid i rif y drwydded a nifer y teithwyr a ganiateir gan y drwydded fod yn glir y tu mewn i'r cerbyd er mwyn i deithwyr fod yn gallu eu gweld bob amser.
- 18 Mewn perthynas â'r Cerbyd, rhaid bod polisi yswiriant neu sicrwydd o'r fath, fel sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI o Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988, mewn grym.
- 19 Mewn perthynas â'r cerbyd, rhaid bod mewn grym, tystysgrif prawf MOT ddilys (os yw'n briodol) a thrwydded cronfa ffyrdd cyfredol.
- 20 Bydd gan bob sedd yn y cerbyd wregys ddiogelwch.

21 Rhaid i drawsnewidiadau LPG (Nwy Petroliwm Hylifol) gario Tystysgrifau Trawsnewidiad LPG a ddarparwyd gan beirianydd â chymwysterau addas.

22 Rhaid i ddeiliad y drwydded roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig cyn gosod System Teledu Cylch Caeedig (TCC) yn y cerbyd. Ni fydd Systemau TCC mewn cerbydau yn recordio sain a rhaid iddynt gydymffurfio a thelerau "Polisi ar Osod a Gweithrediad Systemau TCC mewn Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hacni". Bydd perchennog y cerbyd yn sicrhau bod arwyddion priodol wedi'u harddangos yn y cerbyd, fel eu bod yn weladwy o du mewn a thu allan y cerbyd yn unol a'r polisi.

23 Cerbydau sydd yn medru cludo cadeiriau olwyn - Rhaid i gerbydau a addaswyd i gario cadeiriau olwyn gael y gymeradwyaeth perthnasol (ar ôl addasiad y cerbyd) a dogfennaeth i wirio hyn - Gweler Polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer cerbydau sydd yn medru cludo cadeiriau olwyn.

(05/02/2019)

#### **24 Amodau ychwanegol ar gyfer limwsinau estynedig :-**

- a) Rhaid i'r cerbyd lwyddo mewn arolygiad cymeradwyaeth cerbyd sengl (SVA hyd at 2009) / Cymeradwyaeth Cerbyd Unigol (IVA 2009 ymlaen) o'i gynllun a gwneuthuriad mewn gorsaf brofi'r Arolygiaeth Cerbydau. **Rhaid cyflwyno'r Dystysgrif Gymeradwyaeth neu'r Dystysgrif Gydymffurfio i'r Awdurdod hwn ynghyd â Dogfen Gofrestru'r DVLA (V5) a thystiolaeth o ddyddiad gwneuthuriad y cerbyd.**
  - b) Ni fydd hyd mwyaf yr 'estyniad' yn fwy na 120"/3048mm.
  - c) Ni fydd teithwyr yn eistedd yn y tu blaen i'r cerbyd.
  - d) Rhaid i'r cerbyd feddu ar deians a bennir gan Ford USA h.y. cerbydau a gofrestrwyd cyn 1998 – 235/75R 15 108S (BF Goodrich Extra Load neu gyfwerth). Rhaid i fersiynau o 1998 feddu ar 225/70R 16 107T (atgyfnerthedig).
  - e) Bydd unrhyw wydr tywyll yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a osodir allan gan yr Asiantaeth Gwasanaethau Gweithredwyr Cerbydau (VOSA). Gall y rhan ar gyfer teithwyr gael gwydr wedi ei dduo. Rhaid i'r holl wydr tywyll neu ddu gael ei osod yn unol â safonau ac ni fydd unrhyw ddiwygiadau o'r safonau hyn yn dderbyniol.
  - f) Ni chaniateir unrhyw fath o adloniant neu weithgaredd o unrhyw fath heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod hwn.
  - g) Rhaid i gerbyd a neilltuir yn hollol ar gyfer plant dan 16 oed gario rhiant/gwarcheidwad neu hebryngwr a wiriwyd gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT). Bydd datganiad yn cael ei gwblhau gan y rhiant/gwarcheidwad sy'n gyfrifol am y daith cyn dechrau'r siwrnai a fydd yn manylu ar yr unigolion sy'n teithio ac enw a manylion cyswllt yr unigolyn a neilltuodd y cerbyd. Rhaid i'r gyrrwr gario copi o'r ffurflen hon.
  - h) Gellir gofyn i gerbydau gael prawf lludded metel yn ôl doethineb yr Awdurdod hwn. Y gweithredwr fydd yn talu am gost y prawf hwn.
  - i) Bydd diodydd meddwol a ddarperir yn y cerbyd dan delerau trwydded briodol sy'n perthyn i werthu neu gyflenwi alcohol. Ar gyfer grwpiau o deithwyr dan 18 oed, rhaid defnyddio gwydrau a photeli plastig a rhaid cloi diodydd meddwol neu eu tynnu o'r cerbyd cyn dechrau ar y siwrnai.
  - j) Bydd yr amodau arferol sy'n ymwneud â thrwyddedu Gweithredwyr a Gyrrwyr yn berthnasol..
- Sylwch nad oes gan Gyngor Wrecsam y cyfleusterau i roi Tystysgrifau MOT ar gyfer Limwsinau.**

**Archebu Profion Limwsinau – Cyfeiriwch pob ymholiad yn uniongyrchol at y Rheolwr Cludiant.**



Rhif «PlateNo»



## TRWYDDED CERBYD HACNI

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol), 1976 a phob pŵer ac awdurdod arall sy'n eu galluogi

**DRWY HYN YN RHOI TRWYDDED** ar gyfer y cerbyd sy'n dwyn y Rhif Cofrestru «**RegNo**»

y mae

o

yn Weithredwr(wyr) i yrru cerbyd hacni o fewn cyfyngiadau'r Fwrdeistref a nodwyd o, hyd at a gan gynnwys os na chafodd ei atal neu ei ddi-ddymu yn flaenorol, ac i gario dim mwy na o bobl (heb gynnwys y gyrrwr) yn amodol ar ddarpariaethau'r Ddeddf a nodwyd a Statudau o'r fath. Gall Gorchmynion, Rheolau, Rheoliadau ac Is-ddeddfau fod mewn grym o dro i dro ar gyfer rheoleiddio Cerbydau Hacni a'r Perchnogion a Gyrwyr o fewn y Fwrdeistref dan sylw ac yn ddarostyngedig i amodau sydd ynghlwm i'r Drwydded hon a nodir dros y dudalen.

## DYDDIEDIG y

---

**Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio**

## AMODAU'R DRWYDDED

### **Cynnal a Chadw Cerbyd:**

Bydd y cerbyd a'r holl osodion ac offer bob amser pan fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio neu ar gael ar gyfer llogi yn cael ei gadw mewn cyflwr effeithlon, diogel, taclus a glân a chydymffurfir â'r holl ofynion statudol perthnasol (gan gynnwys yn benodol y rhai yn Rheoliadau Cerbydau Modur (Adeiladu a Defnyddio)).

### **Newidiadau i Gerbyd:**

Ni wneir unrhyw newidiadau sylweddol i fanyleb, dyluniad, cyflwr neu ymddangosiad y cerbyd heb gymeradwyaeth y Cyngor ar unrhyw adeg tra mae'r trwydded mewn grym. Dim Trelars i gael eu defnyddio gan unrhyw Gerbyd Hacni.

### **Offer Diogelwch:**

1. Rhaid i'r cerbyd gael ei ffitio â diffoddwr tân powdr sych effeithiol sy'n pwyso o leiaf 1kg. Bydd y diffoddwr wedi ei osod yn ddiogel mewn man fel nad yw'n amharu ar reolaeth y cerbyd ac fel nad yw aelod o'r cyhoedd yn ymyrryd ag ef. Pob diffoddwr i gael ei wasanaethu bob blwyddyn gan arolygydd cymwys a chofnod arolygu gyda dyddiad priodol i fod ar gael.
3. Rhaid i'r cerbyd gynnwys blwch cymorth cyntaf sy'n cynnwys:
  - i) chwe gorchudd gludiog di-haint wedi'u lapio'n unigol (plasteri)
  - ii) un gorchudd di-haint mawr
  - iii) dau rwymyn trionglog
  - iv) dau bin cau
  - v) cadachau glanhau llaith wedi'u lapio'n unigola dylai gael ei gario yn y cerbyd bob amser a'i gadw'n ddiogel yn y bwt i'w ddefnyddio mewn argyfwng. Ni fydd unrhyw rwymedigaeth ar y Gyrrwr i ymgymryd â thriniaeth cymorth cyntaf.

### **Marciau Mewnol:**

Bydd y perchennog yn sicrhau eu bod wedi eu marcio'n glir a'u cynnal y tu mewn i'r cerbyd mewn safle fel eu bod yn weladwy bob amser i bersonau sy'n cael eu cludo sef nifer y teithwyr a ragnodir yn y drwydded hon.

### **Arwyddion, Hysbysiadau ac ati**

- (1) Dim arwyddion, hysbysiadau, hysbysebion, platiau, marciau, rhifau, llythrennau, ffigyrau, symbolau, arwyddluniau o ddyfeisiau o gwbl yn cael ei harddangos ar, yn neu o'r cerbyd ac eithrio'r rhai fydd angen gan unrhyw ddarpariaeth statudol (gan gynnwys is-ddeddfau) neu sy'n ofynnol neu a ganiateir gan yr amodau hyn, ar yr amod, fodd bynnag, na fydd yr amod hwn yn berthnasol i unrhyw arwydd ar gloc tacsï sydd wedi'i osod yn y cerbyd neu arwyddion hysbysebu y cytunwyd arnynt gan y Cyngor.
- (2) Bydd y perchennog yn trefnu i blât y cerbyd hacni a ddarperir gan y Cyngor gael ei osod yn ddiogel ar gefn y cerbyd mewn man fertigol ac amlwg a rhaid i blât o'r fath gael ei gadw'n lân bob amser ac ni ddylid ei guddio o olwg y cyhoedd.

### **Euogfarnau:**

Bydd y perchennog o fewn saith diwrnod yn datgelu i'r Cyngor yn ysgrifenedig manylion unrhyw euogfarn a osodwyd arno (neu os yw'r perchennog yn gwmi neu bartneriaeth ar unrhyw un o'r cyfarwyddwyr neu bartneriaid) yn ystod cyfnod y drwydded.

### **Hawl i Apelio:**

Os ydych wedi eich tramgwyddo gan unrhyw un o amodau'r drwydded hon mae gennych yr hawl i apelio i Lys Ynadon o fewn 21 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwyd y drwydded.

(11/2009)

**CYNGOR WRECSAM  
GOFYNION CERBYD HACNI**

1. Rhaid i'r cerbyd fod yn gerbyd a adeiladwyd i'w ddefnyddio fel cerbyd hacni a dylai fod wedi derbyn cymeradwyaeth Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio.
  2. Rhaid i holl gerbydau hacni'r Fwrdeistref Sirol fod yn gallu cludo Unigolion Anabl yn eu cadeiriau olwyn.
  3. Ni ddylai'r cerbyd fod yn fwy na 10 oed. (Cais newydd/cyntaf)
  4. Rhaid cyflwyno cerbydau i'w harchwilio mewn cyflwr glân ac addas i'r ffordd a dylai fod yn rhydd o unrhyw rwd.
  5. Ni ddylai unrhyw gerbyd gael ei gyflwyno ar gyfer archwiliad os ydynt wedi eu difrodi mewn damwain a rhaid hysbysu'r Cyngor o unrhyw ddifrod tra mae'r cerbyd wedi'i drwyddedu.
  6. Rhaid i'r cerbyd yrru ar y llaw dde.
  7. Isafswm lled derbynol rhan o sedd fesul unigolyn yw 16" (410 mm).
  8. Rhaid i'r cerbyd a'i holl osodiadau ac offer gael ei gadw mewn cyflwr effeithlon, diogel, taclus a glân, a rhaid iddo gydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol, gan gynnwys yn benodol y rhai o fewn Rheoliadau Cerbydau Modur (Adeiladwaith a Defnydd).
  9. Rhaid i seddi'r cerbyd fod wedi eu clustogi'n briodol neu eu gorchuddio a bod yn rhydd o ddifrod.
  10. Rhaid i lawr y cerbyd gael carped priodol neu orchudd priodol arall.
  11. a) Rhaid cael digon o le yn y cerbyd i gario bagiau teithwyr a rhaid i'r lle hwn fod yn lân ac yn ddwrglos. Ni ellir gosod rac ar y to.  
b) Gellir gosod blwch ar y to os :
    - vii) yw'n cydymffurfio â Rheoliadau Traffig y Ffordd (adeiladwaith a defnydd) ac os yw'n briodol ar gyfer y math o gerbyd a ddefnyddir.
    - viii) yw'n gynhwysydd caeëdig (nid yn rac to agored â gorchudd rhydd).
    - ix) yw'n cael ei ddefnyddio i gario bagiau ychwanegol megis clybiau golff, bagiau mawr ac ati ac nid ar gyfer cario nwyddau nac anifeiliaid byw.
    - x) yw'r huriwr gyda'r cerbyd ar adeg defnyddio'r blwch to.
    - xi) nad yw unrhyw ran o'r blwch na'i ffitiadau'n parhau ar y cerbyd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio i gario bagiau ychwanegol.
    - xii) nad oes hysbysebion, geiriau na rhifau ar y blwch ei hun.
  - c) Dim Trelars i gael eu defnyddio gan unrhyw Gerbyd Hacni.
- 
12. i) Rhaid i'r cerbyd gael ei ffitio â diffoddwr tân powdr sych effeithlon sy'n pwysu o leiaf 1 kg. Bydd y diffoddwr wedi ei osod yn ddiogel mewn man fel nad yw'n amharu ar reolaeth y cerbyd ac fel nad yw aelod o'r cyhoedd yn ymyrryd ag ef.
    - ii) Pob diffoddwr i gael ei wasanaethu bob blwyddyn gan arolygydd cymwys a chofnod arolygu gyda dyddiad priodol i fod ar gael.
13. Rhaid i'r cerbyd gynnwys blwch cymorth cyntaf sy'n cynnwys:

- vi) chwe gorchudd gludiog di-haint wedi'u lapio'n unigol (plasteri)
- vii) un gorchudd di-haint mawr
- viii) dau rwymyn trionglog
- ix) dau bin cau
- x) cadachau glanhau llaith wedi'u lapio'n unigol

a dylai gael ei gario yn y cerbyd bob amser a'i gadw'n ddiogel yn y bwt i'w ddefnyddio mewn argyfwng. Ni fydd unrhyw rwymedigaeth ar y Gyrwr i ymgymryd â thriniaeth cymorth cyntaf.

14. Rhaid i'r cerbyd gario offer a chyfarpar digonol i alluogi gosod olwyn newydd yn gyflym petai difrod neu bunjar.

15. a) Rhaid i unrhyw fesurydd a roddir yn y cerbyd fod mewn man nad yw'n weladwy tu allan i'r cerbyd ond sy'n amlwg iawn i'r teithwyr tu mewn.

b) Rhaid i gloiciau taci arddangos marciau "CE" neu "M" a chael darpariaeth i arddangos Sêl Gymeradwyaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

16. Os trwyddedir y cerbyd ar hyn o bryd gan y Cyngor fel cerbyd hacni, bydd gofyn gosod y plât trwydded a gyhoeddir gan y Cyngor yn ddiogel tu allan i gefn y cerbyd mewn man amlwg ac mewn modd sy'n ei gwneud yn hawdd i'w dynnu.

17. Ni ddylai unrhyw arwyddion, hysbysiadau, hysbysebion, platiau, marciau, rhifau, llythrennau, ffigyrau, symbolau, arwyddluniau na dyfeisiau o gwbl gael eu harddangos ar, neu o'r cerbydau ac eithrio'r rhai fydd angen gan unrhyw ddarpariaeth statudol, is-ddeddfau neu a ganiateir neu sy'n ofynnol gan unrhyw amod o trwydded cerbyd hacni a roddir gan y Cyngor o ran y cerbyd.

18. Os trwyddedir y cerbyd ar hyn o bryd gan y Cyngor ar gyfer cerbyd hacni, rhaid i rif y drwydded a nifer y teithwyr a ganiateir gan y drwydded fod yn glir y tu mewn i'r cerbyd er mwyn i deithwyr fod yn gallu eu gweld bob amser.

19. Mewn perthynas â'r Cerbyd, rhaid bod polisi yswiriant neu sicrwydd o'r fath, fel sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI o Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988, mewn grym.

20. Mewn perthynas â'r cerbyd, rhaid bod mewn grym, tystysgrif prawf MOT ddilys (os yw'n briodol) a thrwydded cronfa ffyrdd cyfredol.

21. Gall Cerbydau Hacni fod o unrhyw liw a gyflenwir gan gynhyrchwyr y cerbyd. Cyfeirir ceisiadau am unrhyw liwiau eraill at y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol.

22. Hysbysebu – Bydd gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor, awdurdod i gymeradwyo pob hysbyseb sydd i'w arddangos ar gerbydau Hacni Wrecsam.

23. Rhaid i ddeiliad y drwydded roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig cyn gosod System Teledu Cylch Caeddig (TCC) yn y cerbyd. Ni fydd Systemau TCC mewn cerbydau yn recordio sain a rhaid iddynt gydymffurfio a thelerau "Polisi ar Osod a Gweithrediad Systemau TCC mewn Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hacni". Bydd perchennog y cerbyd yn sicrhau bod arwyddion priodol wedi'u harddangos yn y cerbyd, fel eu bod yn weladwy o du mewn a thu allan y cerbyd yn unol â'r polisi.

(30/06/2015)

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

### Rhestr Cerbydau Cymeradwy a manylebau ar gyfer Cerbydau Hacni.

*“Mae'r canlynol yn berthnasol i'r holl Drwyddedau Cerbydau Hacni a gyhoeddwyd ar ôl 18 Mai 2015 ac nid yw'n effeithio ar drwyddedau cerbydau sydd wedi adnewyddu cyn y dyddiad hwn.”*

#### **Mae'n rhaid i gerbydau hacni a gymeradwywyd fod â'r canlynol-**

Cymeradwyaeth Math Cerbyd Cyfan y Gymuned Ewropeaidd - M1 (wedi'i rhestru fel Categori Cerbyd ar y llyfr log V5C). Mae'n rhaid i'r cerbyd gael Cymeradwyaeth Math Cerbyd Cyfan y Gymuned Ewropeaidd ar gyfer ei **gyflwr addasedig, gelwir hyn yn Ardystiad Cam 2.** Mae'n rhaid i ymgeiswyr allu profi bod y cerbyd wedi derbyn Cymeradwyaeth Math Cerbyd Cyfan y Gymuned Ewropeaidd, **dangosir hyn drwy Ardystiad VCA a Phlât VIN ar siasi'r cerbyd.** Mae'r rhain i'w cael gan y cwmni sy'n gwneud yr addasiadau.

#### **Rhestr Cerbydau Cymeradwy**

- LTI - Tacsî Rhyngwladol Llundain
- Cab Direct/Allied Vehicles – Peugeot Expert E7; Mercedes Vito M8, Peugeot Expert Euro Taxi
- Voyager Multipurpose Vehicles Ltd – Renault Trafic NX8; Vauxhall Vivaro NX8; Fiat/Citroen LC7, Ford Transit Tourneo Taxi
- Sentinel/SVA Ltd- Fiat Scudo Hackney, Peugeot Expert Hackney, Citroen Dispatch Hackney
- Penso Technologies Ltd- TTW Fiat Scudo Hackney (ychwanegwyd mis Hydref 2016)
- Scotcab- Fiat Scudo (ychwanegwyd mis Rhagfyr 2016)

Ar yr 19 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Pwyllgor:

‘rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol, i ddiwygio'r rhestr o gerbydau hacni a gymeradwywyd yn ôl yr angen.’

#### **Nodiadau Canllaw:**

Mae'r Cyngor yn cymeradwyo cerbydau gan gynhyrchwyr / cyflenwyr / addaswyr penodol. Cyn prynu cerbyd, mae'n rhaid i chi fod yn fodlon bod y cerbyd wedi ei gynhyrchu / addasu gan ffynhonnell gymeradwy.

Yn achos cerbydau ail-law, mae tystysgrifau addasu yn hanfodol bwysig. **Ni fydd cerbydau heb dystysgrifau i brofi tarddiad yr addasiad yn cael eu derbyn.** Nid yw prynu cerbyd yn seiliedig ar y gwneuthuriad / model yn unig yn ddigonol a gall arwain at wrthod y cais am drwydded.

O dro i dro mae gweithgynhyrchwyr yn newid manylebau eu cerbydau. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod trwyddedu unrhyw gerbyd os bernir y bu newid materol i'r dyluniad, ymddangosiad a/neu'r fanyleb ers i'r model gael ei gymeradwyo a'i ardystio diwethaf. Os bu newidiadau i'r dyluniad, ymddangosiad a/neu'r fanyleb; efallai y bydd angen caniatâd pellach cyn rhoi unrhyw drwydded.

Mae'n rhaid i gerbydau a gyflwynir i'r Cyngor ar gyfer eu trwyddedu fod â'r dogfennau gwreiddiol i brofi cymeradwyaeth math cerbyd a gyhoeddir ar gyfer y cerbyd (Cerbyd Math Cyfan Ewropeaidd) yn ogystal â manylion y cerbyd a'r addaswr.

**Fe'ch cynghorir i beidio â phrynu cerbyd heb ddogfennau dilys digonol. Os nad ydych chi'n siŵr a fydd y cerbyd yn cael ei drwyddedu, fe'ch cynghorir yn gryf i wirio hynny gyda thîm trwyddedu'r Cyngor cyn llofnodi unrhyw gytundeb ariannol neu ymrwymo i brynu unrhyw gerbyd. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i bob cerbyd newydd neu ail-law (heb eu trwyddedu ar hyn o bryd) sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer trwydded cerbyd hacni.**

### **Arwyddion Gorfodol a Golau yn y To**

- Rhaid dangos y gair "TAXI" neu "TACSI" ar bob un o 4 ochr allanol Cerbydau Hacni
- Dylai'r arwyddion fod mewn prif lythrennau o faint rhwng 3" - 6" mewn lliw cyferbyniol i liw'r cerbyd

Ni fydd amod yr arwyddion yn berthnasol i Gerbydau LTI (cerbyd hacni traddodiadol.)

- Ni ddylid tynnu neu newid yr arwydd TAXI ar do'r cerbyd a osodwyd yn y ffatri Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol 18 Mai 2015

(28/12/2016)



## TRWYDDED GYRWYR CERBYD HACNI

Mae Cyngor Wrecsam, dan ddarpariaethau Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a 1899, Deddf Iechyd Cyhoeddus 1875 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

### DRWY HYN YN RHOI TRWYDDED I

o

weithredu fel gyrrwr Cerbyd Hacni o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam o'r dyddiad hwn hyd at a chan gynnwys (**Dod i Ben**) oni bai eu bod wedi eu hatal neu eu dirymu yn flaenorol, yn amodol ar gydsyniad Perchennog Cerbydau o'r fath a darpariaethau'r Ddeddf y cyfeirir ati a deddfau o'r fath, Gorchmynion, Rheolau, Rheoliadau ac Is-ddeddfau ag y gall o bryd i'w gilydd fod mewn grym ar gyfer rheoleiddio Cerbydau Hacni a'r Perchnogion, Gyrrwyr a Gweithredwyr o fewn y Fwrdeistref Sirol.

DYDDIEDIG y

---

### Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio

06/2005

### Darpariaethau sy'n rheoleiddio ymddygiad perchnogion a gyrrwyr cerbydau hacni o fewn yr ardal yn eu gwaith a phenderfynu a fydd gyrrwyr o'r fath yn gwisgo unrhyw fathodynau a pha rai

1. Bydd gyrrwr cerbyd hacni sydd wedi cael mesurydd tacs:-
  - (a) wrth sefyll neu yrru tacs yn cadw'r allwedd, baner neu ddyfais sydd wedi'i ffitio yn unol â'r is-ddeddf yn y cyswllt hwnnw wedi cloi yn y safle lle nad oes pris yn cael ei gofnodi ar wyneb y cloc tacs;
  - (b) cyn dechrau ar daith y codir pris ar gyfer pellter ac amser, yn troi peiriant y cloc tacs ymlaen trwy symud yr allwedd, baner neu ddyfais arall, fel bod y gair "llogi" yn ddarllenadwy ar wyneb y cloc tacs a chadw peiriant y cloc tacs yn gweithredu nes terfynu'r llogi;
  - (c) yn sicrhau bod deial y cloc tacs yn cael ei oleuo'n briodol drwy gydol unrhyw ran o gyfnod llogi sydd yn ystod oriau'r nos fel y diffinnir at ddibenion Deddf Traffig Ffyrdd 1972, a hefyd ar unrhyw adeg arall ar gais yr huriwr.
2. Ni fydd perchennog na gyrrwr cerbyd hacni yn ymyrryd â na chaniatáu i unrhyw berson ymyrryd ag unrhyw gloc tacs sydd wedi ei roi yn y cerbyd, gyda'r ffitiadau, na gyda seliau a osodwyd.

3. Bydd gyrrwr cerbyd hacni, pan mae'n gyrru tacsï mewn unrhyw stryd ac nid wedi ei logi ar y pryd yn:-
  - (a) symud ymlaen gyda chyflymder rhesymol i un o'r safleoedd a bennir gan y Cyngor yn y cyswllt hwnnw;
  - (b) os bydd safle, ar yr adeg mae'n cyrraedd, wedi'i feddiannu gan y nifer llawn o gerbydau a awdurdodwyd i'w feddiannu, yn symud ymlaen i safle arall;
  - (c) wrth gyrraedd safle nad yw wedi'i feddiannu eisoes gan y nifer llawn o gerbydau wedi'u hawdurdodi i'w feddiannu, parcio'r cerbyd yn union y tu ôl i'r cerbyd neu gerbydau ar y safle fel ei fod yn wynebu yn yr un cyfeiriad.
  - (d) o bryd i'w gilydd pan fydd unrhyw gerbyd arall yn union o'i flaen, yn cael ei yrru i ffwrdd neu ei symud yn ei flaen yn symud ei gerbyd ymlaen er mwyn llenwi'r lle a feddiannwyd yn flaenorol gan y cerbyd sydd wedi'i yrru i ffwrdd neu ei symud ymlaen.
4. Ni fydd perchennog na gyrrwr cerbyd hacni, wrth sefyll neu yrru tacsï ar gyfer llogi, drwy alw allan neu fel arall, yn taer erfyn ar neb i logi cerbyd o'r fath ac ni fydd yn gwneud defnydd o wasanaethau unrhyw un arall at y diben hwnnw.
5. Bydd gyrrwr cerbyd hacni yn ymddwyn mewn modd trefnus a sifil a bydd yn cymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau diogelwch yr unigolion sy'n cael eu cludo neu'n mynd i mewn neu'n dod allan o'r cerbyd.
6. Bydd y perchennog neu yrrwr cerbyd hacni sydd wedi cytuno neu wedi cael ei logi i fod yn bresennol gyda'r cerbyd ar adeg ac mewn lle penodedig, oni bai y bu oedi neu ei fod wedi'i atal gan achos digonol, yn bresennol yn brydlon gyda cherbyd o'r fath ar adeg ac mewn lle a drefnwyd.
7. Ni fydd perchennog na gyrrwr cerbyd hacni yn cludo nac yn caniatáu i gludo mewn cerbyd o'r fath unrhyw nifer mwy o bobl na'r nifer o bobl a bennir ar y plât ar du allan y cerbyd.
8. Os yw bathodyn wedi ei ddarparu gan y Cyngor a'i gyflwyno i'r gyrrwr cerbyd hacni, wrth sefyll neu yrru tacsï, a phan logir, bydd yn gwisgo'r bathodyn hwnnw fel bod modd gweld y bathodyn yn glir.
9. Bydd gyrrwr cerbyd hacni a adeiladwyd er mwyn cario bagiau, pan wneir cais gan unrhyw berson sy'n llogi neu'n ceisio llogi'r cerbyd yn:-
  - (a) cludo maint rhesymol o fagiau;
  - (b) rhoi cymorth rhesymol i lwytho a dadlwytho;
  - (c) rhoi cymorth rhesymol i'w symud i neu o fynedfa unrhyw adeilad, gorsaf, neu lle y gellir casglu neu ollwng person o'r fath.
10. (a) Bydd perchennog cerbyd hacni yn sicrhau bod datganiad o'r prisiau wedi'i osod gan y Cyngor i gael ei arddangos y tu mewn i'r cerbyd, mewn llythrennau a ffigurau clir ac eglur.



(b) Ni fydd perchennog neu yrrwr cerbyd hacni sy'n cynnwys datganiad o brisiau yn unol â'r is-ddeddf hon yn achosi i'r llythrennau neu ffigurau yn y datganiad gael eu cuddio neu eu cyflwyno'n annarllenadwy ar unrhyw adeg tra mae'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer llogi neu yrru tacsî.

**Darpariaethau sy'n sicrhau cyflenwi ac ailgyflenwi'n ddiogel unrhyw eiddo sydd wedi ei adael yn ddamweiniol mewn cerbydau hacni a gosod y prisiau a osodir mewn perthynas â hyn**

11. Bydd perchennog neu yrrwr y cerbyd hacni yn chwilio'r cerbyd yn ofalus yn syth ar ôl neu mor fuan ag sy'n ymarferol ar ôl llogi'r cerbyd am unrhyw eiddo sydd wedi'i adael ynddo'n ddamweiniol.
12. Bydd y perchennog neu yrrwr cerbyd hacni, os bydd unrhyw eiddo yn cael ei adael yn ddamweiniol gan unrhyw un sydd wedi ei gludo yn y cerbyd a ganfuwyd neu a drosglwyddwyd iddo yn:-
  - (a) mynd ag ef gynted â phosibl ac yn bendant o fewn 48 awr, os na hawliwyd yn gynt gan neu ar ran ei berchennog i orsaf yr heddlu yn yr ardal a'i adael ym meddiant y swyddog sy'n gyfrifol ar ôl iddo roi derbynneb amdano;
  - (b) cael hawl i dderbyn gan y sawl y bydd yr eiddo yn cael ei ailgludo iddo swm sy'n cyfateb i bump y cant yn y bunt o'r amcangyfrif o'i werth (neu'r pris am y pellter o'r lle y cafodd ei ganfod i'r orsaf heddlu lle'r aethpwyd â'r eiddo, pa un bynnag sydd fwyaf) ond dim mwy na phum punt.

**13 Euogfarnau:**

Bydd y perchennog o fewn saith diwrnod yn datgelu i'r Cyngor yn ysgrifenedig manylion unrhyw euogfarn a osodwyd arno (neu os yw'r perchennog yn gwmni neu bartneriaeth ar unrhyw un o'r cyfarwyddwyr neu bartneriaid) yn ystod cyfnod y drwydded.

14 Rhaid i yrrwr gwblhau'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu pan fydd angen gan y Gwasanaeth Trwyddedu.

**Hawl i Apelio:**

Os ydych wedi eich tramgwyddo gan unrhyw un o amodau'r drwydded hon mae gennych yr hawl i apelio i Lys Ynadon o fewn 21 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwyd y drwydded.

(02/2017)

**DS. NODYN I'R YMGEISYDD – BYDD Y PRAWF GWYBODAETH YN CYNNWYS  
CWESTIYNAU O'R AMODAU HYN**

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL MEWN PRINT MWY BRAS, AR GAIS